

ECO'R WYDDFA

RHIF 47

EBRILL 1980

Pris: 12c

AR Y SGRÎN FACH – ACTIO GWRAIG LLOYD GEORGE

Un o blant bro'r *Eco*, fydd yn chwarae rhan gwraig David Lloyd George, Dame Margaret, yn y gyfres deledu gostus a deledir ar BBC2 ddiwedd y flwyddyn hon neu ddechrau 1981.

Mae llawer o'r gwaith ffilmio allanol ar gyfer y gyfres wedi digwydd yn lleol; er enghraifft, y gwaith wnaed yn ddiweddar yng nghastell Caernarfon pan ffilmwyd golygfeydd o Lloyd George yn annerch y torfeydd yn y castell. Efallai y bydd rhai ohonoch yn adnabod rhai o wynebau'r dorf, gan fod amryw o'r rheiny hefyd o'r ardal hon.

Chwaraeir rhan Lloyd George ei hun gan Philip Madoc o Ferthyr Tudfil, ac mae llawer o'r farn fod pryd a gwedd y ddau yn debyg eithriadol, yn enwedig gyda'r gwaith manwl y mae'r adran goluro wedi'i gyflawni ar 'Lloyd George' fel y mae'n mynd i oed.

Pan enillodd Lloyd George sedd Caernarfon i'r Rhyddfrydwyr ym 1890 mewn

brwydr glos yn erbyn sgweiar lleol, Hugh Elis Nanney, 'doedd y Fonesig Olwen Carey Evans, merch ieuengaf Iarll Dwyfor heb ei geni. Ond cafodd hithau, fel yr unig un o'i blant sy'n dal yn fyw, fraint anghyffredin wrth gael dod i gastell Caernarfon yn ddiweddar i weld ffilmio rhai o'r golygfeydd.

Awdures y gyfres yw Elaine Morgan, ac mae hithau wedi bod yn brysur am ddwy flynedd yn paratoi'r sgript derfynol. Gwnaeth gryn enw iddi ei hun fel awdur sgript 'How Green Was My Valley', ac yn ddiweddarach 'The Testament of Youth'.

Dyma'r gyfres swmpus gyntaf i Lisabeth Miles gael cyfle i wneud enw iddi ei hun drwy wledydd Prydain, ac fel darllenwyr yr *Eco* dymunwn iddi bob llwyddiant. Bu'n waith hynod o anodd iddi hi a'i holl gyd-actorion.

Tybed am ba hyd y bydd rhaid i ni ddisgwyl cyn y teledir y fath gyfres gostus drwy gyfrwng mamiaith Lloyd George?



Dame Margaret (Lisabeth Miles) a David Lloyd George (Philip Madoc) yng nghwmni eu plant, yn ystod yr ymarferiadau ar gyfer y gyfres deledu a welir ar BBC 2 ddiwedd y flwyddyn hon neu ddechrau'r flwyddyn nesa'.


MAE'R ECO EICH ANGEN

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yr Eco ar nos Fercher, Ebrill 9 yn neuadd y pentref, Bethel am 7.30 pm.

Gobeithio y dewch yno'n llw i leisio'ch barn am eich papur bro, boed honno'n farn ganmoliaethus neu'n un feirniadol. Dyma'r cyfle i'w mynegi. Peidiwch â'i golli.

A ninnau'n prysuro tuag at ein hanner canfed rhifyn, teimla rhai o'n gweithwyr sydd wedi bod wrth y llyw o'r cychwyn, y carent gael cymorth yn eu gwahanol rannau o'r gwaith. Tybed a ydych chi'n barod i leddfu rhywfaint ar eu baich a chwarae eich rhan yn nyfodol yr Eco.

AR Y SGRÎN FAWR MOTO BEIC LLEOL



Un o brif gymeriadau'r ffilm 'Silver Dream Racer' a gafodd ei dangos am y tro cyntaf yn Llundain nos Fercher, Mawrth 26 yw moto beic lleol. Fe'i cynhyrchwyd gan gwmni Moduron Barton sy' wedi'i sefydlu'n ffatri fechan ers 3 blynedd bellach yn adeilad Capel Nasareth, Pontrug.

Dywedodd Mr Barry Hart, sy'n un o gyfarwyddwyr y cwmni, iddynt dderbyn cais fis Mai y llynedd oddi wrth gwmni Rank sy'n cynhyrchu'r ffilm, am ddau feic rasio arbennig. "Roeddynt angen beic," meddai, "oedd yn dechnolegol well nag unrhyw beth allasai enwau mawr Japan ei gynhyrchu."

Cawsant ddeuddeg wythnos i gwblhau'r gwaith a bu'r pum gweithiwr wrthi'n brysur ddydd a nos. Cynlluniwyd, paratowyd y rhannau ac fe'u gosodwyd at ei gilydd ym Mhontrug. Y canlyniad yw peiriant fyddai'n sicr o dynnu'r dŵr o ddannedd unrhyw Barry Sheene yn ein mysg.

Ceir model 500cc ac un 750cc a'r olag yn ôl Mr Hart yw'r injan fwyaf pwerus sydd ar gael mewn rasio beiciau modur – gall gyrraedd cyflymder o 180 m.y.a. Dim ond 14 pwys yw pwysau'r ffrâm. Mae rhywbeth sy'n awgrymu'r dyfodol yng nghynllun y beic.

Ar ôl miri'r ffilm, sy'n ymdrin â rasio, gobaith y cwmni yw ffurfio tîm rasio'r beic o ddifri.

Yn y llun a dynnwyd yn ystod rhai o'r profion ar gyfer y ffilm 5 miliwn doler, gwelir Mr Hart gyda dau o'r prif gymeriadau sef Christina Raines a'r canwr pop David Essex sy'n eistedd ar y 'Breuddwyd Arian'.

ECO'R WYDDFA

RHIF 47 MAWRTH 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug
(C'fon 3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun.

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220).

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul (Llanberis 533)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
1af MAI

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 23 EBRILL
os gwelwch yn dda.

DEINIOLLEN

GWAHODDIR - Ceisiadau am swyddi
'First Hand' a Chymhorthydd
Cyffredinol, yn siop Cymdeithas
Gydweithredol Deiniolen. Cyflog i'w
draffod. Anfoner y ceisiadau ynghyd â
manylion llawn o'r cymwysterau i'r
Rheolwr, Cymdeithas Gydweithredol
Deiniolen, Stryd Newton, erbyn Ebrill
19, 1980.

CAPEL DISGWYLFA

CYFARFOD CHWIORYDD - Nos Iau,
Mawrth 6 cynhaliwyd cyfarfod
chwiriorydd y capel. Dechreuwyd
gyda'r Parch Trefor Lewis
(gweinidog) yn darllen salm a rhoi
gwedd. Rhoddwyd croeso i'r
chwiriorydd yn cynnwys dwy o
Gefn-y-waun. Darllenwyd cofnodion
y cyfarfod diwethaf. Dymunwyd
adferiad buan i'r chwiriorydd oedd yn
absennol oherwydd afiechyd.
Deallwyd bod Miss Kathleen Jones
wedi dychwelyd adref ar ôl
llawdriniaeth yn yr ysbyty.
Dymunwyd adferiad buan iddi. Bydd
Mrs Dinah Jones, Druid House yn
dod adref yn fuan hefyd. Atgoffwyd
pawb am y Swper Gŵyl Ddewi,
Mawrth 13. Ar Ebrill 2 bydd
cyfeisteddfod y Chwiriorydd am 7 o'r
gloch yn Nisgwylfa yng nghwmni
Mrs Gwen Rees Roberts. Dangoswyd
sleidiau hanes ymweliad y Parch a
Mrs Trefor Lewis â'r Alban. Cafwyd
noson bleserus. Rhoddwyd y te gan
Mrs Jane Th. Jones a Mrs Elsie
Davies. Casglwyd £1.40. Diolchwyd
i'r Parch Trefor Lewis ac am y te gan
Mrs Dilys Williams. Diweddwyd trwy
gydardrodd gweddi. Bydd y te nesa
Mai 1.

DATHLU GŴYL EIN NAWDDSANT -
Nos Iau, Mawrth 13 mwynhawyd
Swper Gŵyl Ddewi gan amryw o
aelodau capel Disgwylfa. Ar ôl y
swper cafwyd adloniant o dan
arweiniad y Parch Trefor Lewis a Mr
Brython Jones. Cafwyd 'Enwch y
Dôn' gyda Mr Arthur W. Rowlands ar
y piano. Hefyd dau dîm yn chwarae
'Rhowch Arwydd'. Cafwyd deuawd
gan Mr Brython Jones a Mr John
Williams. Adroddwyd gan Mrs Ellen
Jones a Mrs Jennie Lewis. Trefnwyd
llinell goll a'r enillwyr oedd Mr
William Hughes a Mrs Elsie Davies.
Diolchwyd i bawb gan Mr William
H ghes. Ar ddiwedd y cyfarfod
cyd-ganwyd 'Hen Wlad fy Nhadau'.

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs O.G.
Jones, 7 Tai Cynf ddiolch o galon i
gymdogion a chyfeillion am bob
caredigrwydd a chymwynas a
dderbyniwyd yn ystod gwaeledd Mr
Jones.

CYNGOR BWRDEISTREF ARFON -
Bydd tocynnau mantais Bws yn cael
eu dosbarthu yn Festri Ebenezer,
Ebrill 9. 2-4 o'r gloch.

CEFN-Y-WAUN - Cynhelir Gŵyl
Bregethu yr Eglwys y Pasg pryd y
pregethir nos Sadwrn, bore a hwyr
Sul y Pasg gan y Parch John Evans,
Morfa Nefyn a phrynhawn gan y
Parch Robert Roberts Tregarth.
Croeso cynnes i bawb.

**CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y
CHWIORYDD** - Prynhawn Gwener,
Mawrth 7 am chwarter wedi dau
cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi
Byd-eang y chwiriorydd yn festri
Ebenezer. Cymerwyd rhan gan: Mrs
M.C. Jones, Tan-y-caerau a Mrs E.
Lloyd Jones, Pentre Helen o Libanus,
Mrs Nan Jones View Terrace a Miss
Eleanor Jones, Marian Terrace o
Ebenezer, Mrs Nan Owen, Cynfi
Terrace, Mrs Mirian Lewis, Llys Myfyr
o Ddisgwylfa. Mrs Sally Lewis, Green
Terrace a Mrs M. Thomas, Vaynol
Terrace o Gefn-y-waun, Mrs Betty
Davies, Pentre Helen a Mrs Eirlys

Williams, Pentre Helen o'r Tabernacl.
Cyfeiliwyd gan Mrs Betty Davies a
Mrs H. Rees Owen, Deiniol Road.
Rhoddwyd gweddi gan Mrs E.
Williams, Bwthyn o Ebenezer.
Gwnaed casgliad yn ystod y cyfarfod
gan Mrs Hughes, Pentre Helen a Mrs
Eirlys Williams.

NEWYDDION Y SEINDORF - Drwg
gennym glywed am farwolaeth Mr
O.H. Jones, 1 Pentre Helen. Ef oedd
cadeirydd presennol y Seindorf. Bu
ar y pwyllgor am lawer o
flynyddoedd, ac am gyfnod fel
ysgrifennydd. Derbyniwch ein
cydymdeimlad el teulu, oddi wrth y
Seindorf a'r Pwyllgor. Chwaraeodd y
seindorf y dôn 'Eventide' yn eu
hymarfer er cof am Mr O.H. Jones.

Dydd Gwener y Groglith, bydd y
Seindorf yn cystadlu mewn
cystadleuaeth ym Mhontins,
Southport. Pob lwc iddynt.

DIOLCH - Dymuna Richard John
Thomas, 2 Bron Helen, Clwt y Bont,
ddiolch o galon i'w deulu,
perthnasau, cymdogion a'r nifer o
gyfeillion fu yn ymweld ag ef, tra yn
ysbytai Môn ac Arfon a Bryn Seiont,
ac am y caredigrwydd hael, y cardfau
a dderbyniwyd a'r mynych
ymholiadau fu amdano. Dyledus
hefyd yw i'r gwahanol weinidogion
am ei hymweliadau cyson ag ef.
Diolch hefyd am yr addoliad a
gafwyd ym Mryn Seiont o Sul i Sul.
Deuai y gwasanaethau yma â chysur
mawr i'r cleifion fyddai'n abl i'w
mynychu.

DISGWYLFA - Ar Mawrth 15
cynhaliwyd dau wasanaeth
arbennig. Yn y bore dathlwyd Sul y
Mamau gyda'r plant yn arwain yr
addoliad. Ar derfyn y gwasanaeth
cyflwynodd y plant dusw o flodau i'r
mamau. Yn oedfa'r hwyr derbyniwyd
pedwar o bobl ieuaic yr eglwys yn
gyflawn aelodau, sef Brian Cashman,
Dilwyn Thorman Jones, Cemlyn
Thomas ac Eifiona Wyn Williams.
Hefyd croesawyd Mr a Mrs Cledwyn
Thomas sydd wedi trosglwyddo eu
haelodaeth i Ddisgwylfa wedi cau
capel Maes y Dref.

CEFNYWAUN-DISGWYLFA -
Cynhaliwyd Arholiad Sirol Arfon nos
Wener, Mawrth 14 a safodd y
canlynol o blant yr Ofalaeth yr
arholiad - Dylan Jones, Della Jones,
Tegid Roberts, Dyfrig Lewis, Ian
Griffith, Gwyn Griffith, Helen Jones,
Donna Jones, Ian Roberts, Dewi
Williams, Iwan Roberts, Gwenlli
Roberts, Siân Williams ac Aeron
Jones.

Y mae aelodau Cymdeithas Pobl
leuaic Cefnywaun yn dal yn brysur
yn codi arian tuag at Gronfa'r Organ,
ac eisoes daeth bron i £900 i law.
Erbyn i'r Eco ymddangos bydd Ffa'r
Wanwyn wedi ei chynnal yn Ysgol
Gwaun Gynfi a disgwylir mynd
heibio'r mil o bunnoedd. Os dymuna
rhywun roi rhodd fe'i derbynnir gan y
trysorydd, Mr Dafydd Williams, 20
Pentre Helen. Diolchir i bawb sydd
wedi cyfrannu hyd yn hyn o bell ac
agos.

DIOLCH - Dymuna Miss Kathleen
Jane Jones, 'Prenteg', ddiolch i
berthnasau, cymdogion a chyfeillion
am eu caredigrwydd yn ystod ei
gwaeledd. Diolch am y llu cardiaid,
llythyrau, hefyd y blodau, a'r
rhoddion a dderbyniodd. Diolch
hefyd i'w gweinidog, y Parch Trefor
Lewis, y meddyg teulu, staff ward
feddygol isaf Ysbyty Môn ac Arfon,
hefyd staff Ward Pablig, Ysbyty Eryri
am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch
yn fawr i chwi i gyd.

MARW - Ar Fawrth 15 yn Ysbyty Môn
ac Arfon bu farw Mr O.H. Jones,
Bronallt, 1 Pentre Helen yn 60
mlwydd oed. Un o Langaffo, Ynys
Môn ydoedd 'Now' ond bu'n byw yn
Deiniolen am 34 mlynedd, lle'r
adnabyddid ef fel 'Now Insiwran's'
gan rai a 'Now Llangaffo' gan eraill.

Dechreuodd ei yrfa gan gasglu
yswirian yn yr ardal. Yna ar ôl rhai
blynyddoedd aeth i weithio at Gwmni
Bernard Wardle yng Nghaernarfon
lle bu'n ysgrifennydd yr Undeb am
flynyddoedd. Wedi gweithio yno am
13 mlynedd cafodd ei benodi yn
Swyddog Personél yn Hi-speed
Plastics, Llandygái.

Bu hefyd yn gynghorydd ar
gyn-Gyngor Gwyrfa, a mawr oedd ei
barch gan lawer a fu ar ei ofyn am
gyngor neu lythyr. Bu'r angladd
ddydd Mercher, 19 Mawrth.

DIOLCH - Dymuna Meira Jones a
theulu'r diweddar Mr O.H. Jones, 1
Pentre Helen ddiolch i'r cymdogion a
phawb a fu'n garedig wrtho yn ei
waeledd ac am bob cydymdeimlad â
hwy yn eu profedigaeth. Hefyd ei
gydweithwyr yn Hi-speed Plastics,
meddygon y teulu ac Ysbyty Môn ac
Arfon.

DIOLCH - Dymuna Dafydd, Heulwen
a'r plant, Cefn Coch, ddatgan eu
diolchgarwch i bawb am eu
cydymdeimlad â hwy yn eu
nrofedigaeth ddiweddar.

*Er Cof am fy chwaer Brenda
8 Cefn Gwellyn, Rhyd-ddu*

*Yn y Betws 'doedd o'n biti
Rhoddi annwyl chwaer i gysgu;
Amlwg oedd, o'th golli di,
Fod sedd wag mewn nefoedd gu.*

*A phwy well i feddu sedd,
Felly dwyn dy gorff i'r bedd;
Ninnau hefyd yn ein tro
Ddown i gysgu yn y gro.*

Ei brawd Dafydd

PENISARWAUN (atodiad)

LLWYDDIANT - Bu aelodau o gangen
Sant Ioan yn llwyddiannus mewn
arholiad yn ddiweddar. Sgt. Judith
Ann Green, Carys Lloyd Gruffydd,
Meirwen Williams, Yvonne Denise
Jones, Carolyn Jones, Aila
Heatherley, Bethan Jones, Marie
Griffiths, Karen Wyn Jones, Arwel
Williams, Dylan Williams, Dilwyn
Green, Timothy Andrew Jones,
Meirion Wyn Green, Dylan Williams,
Dylan Wyn Green.

Yr arholydd oedd Supt. R.E.
Roberts, Bangor.

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

LLANRUG

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Gwilym Williams, Bryn Eifion, ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Arian, Chwefror 26.

Diolch hefyd i *Eco'r Wyddfa* am eu dymuniadau hwythau yn y rhifyn diwethaf.

Dymuna Mrs Ann Williams, Ystrad, ddiolch yn ddiffuant i'w pherthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd pan gyfarfu â damwain yn ddiweddar.

Y SEINDORF – Ar noson Gŵyl Ddewi aeth aelodau hynaf y seindorf dan arweiniad Mr Owen Jones i glwb Crosville Caernarfon i ddifyrru'r aelodau. Cafwyd derbyniad da yno.

MERCHED Y WAWR – Ymwelodd cangen Llangeftni â changen Llanrug, nos Fawrth 11 yn yr Ysgol Gynradd, gyda Mrs N. Lovatt yn y gadair. Cafwyd amrywiaeth o ganu, adrodd a dramâu byrion gan y ddwy gangen. Yr oedd yn noson hwyliog dros ben. Diolchwyd gan Mrs Nansi Roberts a llywydd cangen Llangeftni, ac yr oedd gan Mrs M. Lloyd Williams benillion i'r achlysur. Diolchwyd i'r gwestwagedd gan Mrs J.C. Williams.

DALIER SYLW – Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 8 yn Ffestri Capel Mawr ac nid yn yr ysgol.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Lun, Mawrth 3, bu'r aelodau yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas. Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor. Yn dilyn swper blasus, caed cyfarfod gyda'r Parch W.O. Roberts yn llywyddu. Y wraig wadd eleni oedd Miss 'Rhiannon James, Bryn Mair. Cafwyd anerchiad cynhwysfawr ac amserol iawn ganddi. Diolchwyd iddi gan y Parch Alun Francis. Yn dilyn cafwyd eitemau gan yr aelodau canlynol. Caneuon gan Mrs Megan Roberts, chwarae'r trwmpeid gan Gwyn M. Roberts, adroddiadau gan Mrs Megan Williams, Dwyfro. Wedi hynny, bu Mrs Lola Butler yn diddanu'r aelodau â chwis. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran yn y cyfarfod gan Mrs Nansi Roberts. Etholwyd swyddogion am y tymor nesaf sef, llywydd: Mrs Lola Butler, Haddef; Trysorydd: Mr Emrys Owen, 51 Bro Rhythallt; Ysgrifennydd: Mrs E. Whiteside, Dolwar. Talwyd diolch i'r swyddogion a'r pywlgor am y gwaith a wnaed yn ystod y tymor gan Mr Ifor Williams, Gwelfryn.

YN GWELLA – Da deall fod Mr R.P. Hughes, Isallt yn gwella'n foddhaol ar ôl triniaeth lawfeddygol ym Mangor.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR – Noson Gŵyl Dewi, cafwyd swper blasus a chyngherdd da, a phawb yn eu hwyliu gorau, i ddiweddu tymor y Gymdeithas. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran i wneud y bwyd a'r cyngherdd gan Mrs W.O. Roberts a chefnogwyd gan Mrs Lola Butler. Llywyddwyd gan y Parch W.O. Roberts. Nos 1a, Chwefror 2, cafwyd noson ddifyr o dan arweiniad y Parch Huw John Hughes, Porthaethwy ar 'Hiwmor y Chwarelwr'. Siaradwyd ymhellach gan y Parch W.O. Roberts, a diolchwyd gan Mr J.G. Jones, Gorffwysfa a Mr J. Williams, Gwledfa. Llywyddwyd gan Mr J. Wyn Owen, Llain y Delyn. Rhoddwyd y te gan Mrs G. Williams, Penterfyn a Miss M.G. Roberts, Ganllwyd.

CYFARFOD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD – Pnawn dydd Gwener, Mawrth 7 yng nghapel Hermon cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi. Cymerwyd rhan gan chworydd y gwahanol eglwysi. **Capel Mawr** – Miss M.G. Roberts,

Ganllwyd, Mrs Myfi Roberts, Tai Plastirion, Mrs N. Jones, Madryn, Mrs Megan Owen, Glasgoed, Mrs J. Parry, Morannedd, Mrs J. Davies, las Gwyn, Mrs Megan Williams, Gwledfa. **Pontrhythallt** – Mrs M.L. Williams, Llys Awen, Mrs Amy Smith, Llechwedd, Mrs Kenny Owen, Bro Rhythallt, Mrs G. Jones, Dalar Deg, Mrs J.C. Williams, Bod Fair. **Tanycoed** – Mrs J. Humphreys, Mrs K. Williams, Môr Awelon, Mrs C. Owen, Gwynant, Miss M. Humphreys, Cadnant. **Bryngwyn** – Mrs Inigo Jones, Eilionwy, Mrs R. Thomas, Berwyn. **Hermon** – Mrs Jones-Evans, Bro Rhythallt. Yr arweinydd oedd Mrs W.O. Roberts. Cyfeiliwyd gan Mrs K. Williams, Môr Awelon. Cafwyd cynulliad da o chworydd a chyfarfod bendithiol iawn.

BEDYDD – Pnawn Sul, Mawrth 9 yn Eglwys Sant Mihangel bedyddiwyd Ioan Wyn, mab bychan John Richard a Nerys Wyn, 2 Gwynfryn, Stryd yr Orsaf. Gwasanaethodd gan y rheithor, y Parch D. Gwynfor Williams.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs Gwyn Davies a Llinos, Bod Awel ar farwolaeth tad Mrs Davies.

MARW – Gyda thristwch y clywsom am farw Mr John Roberts, Gwynfryn ar Sadwrn, Mawrth 8. Cafodd gystudd blin, ar ôl oes o weithgarwch creadigol. Gorchwylion ymarferol oedd ei fywyd ond er y caledwaith yr oedd natur dyner a boneddigaidd ynddo yn ei gymdeithas i gyd-ddyn. Cofir am lawer cymwynas o'i eiddo yn yr ardal. Cydymdeimlir â'i weddw, Mrs Alice Roberts, ei ferch Olive a'i theulu ac hefyd ei unig chwaer, Miss M. Roberts, Waunfawr.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd y cyfarfod misol nos lau, Chwefror 28 a phenderfynwyd fod pob gweithgaredd y gangen i'w cynnal at y 3ydd dydd lau o bob mis drwy'r flwyddyn. Penderfynwyd llongyfarch Mr Dafydd Wigley, A.S., a'r rhai a gydweithiodd ag ef, ar eu hymdrechion i rwystro cau Melin Beblig. Bydd y gangen yn barod i gynorthwyo unrhyw ymdrech arall i gadw'r ffatri broffidiol hon yn agored. Gyda mwy o ddiweithdra eto yn ein bygwth bydd y gangen yn gwrthwynebu unrhyw syniad o weithfeydd mawr, megis atomfa, sydd ddim ond yn rhoi gwaith dros dro a hefyd yn denu pobl o'r tu allan na fyddant yn ein gadael ar ddiwedd y gwaith, ond yn aros a chwyddo nifer y di-waith yn yr ardal. Cred y gangen mai'r ung ateb parhaol i ddiweithdra yng Ngwynedd yw diwydiannau bychain, a rhai wedi eu cysylltu â'n hadnoddau lleol, amaethyddiaeth a thwristiaeth.

Gyda'r diweithdra sydd ar ddechrau yn Ninorwig bydd y gangen yn pwyso am i'r gwaith o godi pencadlys newydd Gwynedd i gael ei amseru fel bo cyfle i'r rhai fydd yn colli gwaith efo'r cynllun Trydan Dŵr gael eu hail-hyfforddi, os oes angen, i gael gwaith yng Nghaernarfon.

Penderfynwyd ystyried a oedd modd sefydlu rhyw fath o waith cydweithredol i'r diben o roi gwaith i blant yn gadael ysgol a'r di-waith lleol. Rhoddir ystyriaeth fwy manwl yn y cyfarfod nesaf ar ôl cael mwy o wybodaeth.

GORFFEN TYMOR CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR – Nos Lun, Chwefror 25 eleni daeth tymor y Dosbarth WEA i derfyn wedi tair blynedd llwyddiannus Dr. Cyril Parry, Porthaethwy oedd yr athro. Cafwyd



Cynhaliwyd yr ail gystadleuedd flwyddol rhwng aelodau seindorf yn y 'Bandreol' yn ddiweddar. Mr Frank Boylin oedd yn cyflwyno'r cystadleuedd a'r beirnod oedd Mr K.D. Hughes o Seindorf Bas Colwyn. Dyma'r canlynwdd: Melodi Araf den 17: 1. Keith Jones, 2. Iwan Wyn Williams, Peter Lloyd Jones. Melodi Araf dros 17: 1. John Tate, 2. O. Glyn Hughes, 3. Merlyn Lloyd Jones. A'r Vaire: 1. O. Glyn Hughes, 2. James Jones, 3. J. Albert Rees. Y pedwaredd buddugol oedd Rhif 1, sef Mr Frank Boylin, Keith Jones, Gareth Hughes ac O. Glyn Hughes. Derbyniasant gwpan her a gyflwynwyd i'r seindorf gan Mr Gareth Jones o'r Waunfawr.

Swper a Noson Lawen i ddathlu'r amgylchiad yng nghartref Dr a Mrs Parry. Mrs M. Lloyd Williams gyflwynodd rodd o Docyn Llyfrau i Dr Parry ar ran aelodau'r dosbarth. Mr Davies, Plas Gwyn gyflwynodd dusw o flodau hardd i Mrs Parry. Derbyniodd Mair y ferch siocled. Siaradodd pob un o aelodau'r dosbarth. Adroddodd Mr Alun Jones, Bethel gadwyn englynion y Parch William Morris i Fôn. Darllenodd Mr Llew Hughes nifer o benillion pwrpasol o'i waith ei hun ar gyfer yr amgylchiad. Cafwyd cân a phawb yn uno yn y cytgan. Mr John G. Jones yn cyfeilio. Mrs Llew Hughes, Cwm-y-glo gynigiodd bleidlais o ddiolchgarwch i Dr a Mrs Parry am y swper a'r croeso. Mr John Rowlands yn eilio. Mr Davies, Plas Gwyn oedd llywydd y dosbarth; Miss Jackson, Caernarfon, ysgrifennydd, Mr John Wyn Owen Llain y Delyn yn drysorydd. Diolchodd Dr Parry am gefnogaeth y dosbarth am y tri thymor ac am y rhoddion gwerthfawr. Soniodd am y pleser a gafodd gyda'r dosbarth ac ychwanegu "wnaiff fy mhriod a minnau byth anghofio'r noson hon a'r mwynhad 'rydym wedi ei gael yn eich cwmni yma ar ein haelwyd'".

Bydd tymor nesaf y WEA yn dechrau y trydydd nos Lun ym Medi. Dr. Williams o Fethesda, mab y diweddar J.O. Williams, Bethesda (gynt o Lanrug) fydd yr athro. Archaeoleg fydd y pwnc. Croeso i bawb.

Penillion a gafwyd ar y Noson Lawen a Swper yn nhŷ'r Dr Cyril Parry, athro WEA.

I'w chanu ar yr alaw 'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg'.

Daeth noson ola'r tymor
Mor chwim â diwrnod bron,
Problemau byd a betws
Ddiflannant gyda hon,
Mor braf oedd brysio i'r ysgol
Yn brydlon erbyn saith
Ac ambell un yn chwysu
Wrth ddwad yn syth o'i waith.

Cytgan:

Wrth ddwad yn syth o'i waith
Wrth ddwad yn syth o'i waith
Ac ambell un yn chwysu
Wrth ddwad yn syth o'i waith.

Pwy all anghofio'r wibdaith
I'r senedd gyda'r trôn
Y bwyta a'r ymgomio
A'r taci-man mor glên?
'Roedd gweled Llundain bobol
Yn wir yn hyfryd wledd
A chyrhaedd adra wedyn
A phawb mewn hwyl a hedd.

Cytgan.

Aelodau llon y Dosbarth
Sydd heno'n cael mwynhad
Wrth ddyfod i roi anrheg
I'r gorau yn y wlad;
Mae'r athro yn ddihafal
Am drin problemau'r byd
Nis gallwn enwi yma
Yr holl destunau i gyd.

Cytgan.

Rhaid canu ffarwel heno
I'n hathro cywir iawn,
A diolch am y swper
Gyda chalonnau llawn;
I Dr a Mrs Parry
Am eu haelioni mawr
I Ddosbarth Addysg y Gweithwyr
Rhown 'Hip Hwre' yn awr.

Cytgan.

Cyfaill

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd Cyfarfod Aelodau Undeb y Mamau yn y Rheithordy ar y nos lau cyntaf ym mis Mawrth. Agorwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Rheithor a Mrs Williams, Y Rheithordy oedd yn llywyddu. Yr oedd y noson yng ngofal y Rheithor a rhoes ddetholiadau ar y delyn a chymerwyd rhan gan y rhan fwyaf o'r aelodau. Y gwestwagedd oedd Mrs J. Williams, Llys Llywelyn a Mrs Lloyd Jones, Lyndale. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn.

ENNILL GWOBWR – Llongyfarchwn Llinos Davies, Bod Awel ar ennill gwobr Cornel y Plant, Y Llan, un o gylchronau yr Eglwys yng Nghymru. Ysgrifennodd Llinos draethawd da iawn ar y testun Y Tri Pheth a Roddwn i lesu Grist, a gwobrwyd hi â'r wobwr gyntaf i rai o dan ddeuddeg oed. Da gennym fod Llinos wedi cael meddyginiaeth ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

MEWN YSBYTY – Drwg gennym ddeall fod Mr Ivor Jones, Whitecote, Glanffynnon wedi ei gymryd i Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor a hyderwn y caiff feddyginiaeth lwyr a buan.

RHODD I'R FYNWENT – Derbyniwyd rhodd o ddwy bunt gronfa Mynwent Eglwys Sant Mihangel gan Mr a Mrs J. Thorne, 60 Maes Padarn, Llanberis a diolchwn iddynt am eu caredigrwydd.

CYDYMDEIMLIR – A Mrs G. Williams, 11 Brorhythallt. Mae Mrs Williams wedi colli ei chwaer yn y De.

Wavell
Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI
Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

LLANBERIS

GENI - Llongyfarchiadau i Hughie a Margaret Griffiths, Bryr. Teg ar enedigaeth eu merch fach yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i'r ddwy nain, Mrs Nan Griffiths, Maes Padarn, a Mrs Myfi Thomas, Bryn Teg.

Dymunwn longyfarch hefyd Mr a Mrs Ieuan Jones, Erw'r Coed, Glan Peris, am fod yn nain a thaid am y tro cyntaf, oherwydd ddechrau'r mis ganwyd merch fach, Ceri, i Judith (merch Mr a Mrs Jones) a'i gŵr Martin.

LLONGYFARCHIADAU - I Heather Lyn, merch Mr a Mrs Brinley Roberts, Stryd Goodman ar ei chyfraniad ar raglen 'Seren 1' ar deledu Harlech. Yn wir 'roedd yn hamddenol a chartrefol iawn drwy'r rhaglen.

MARW - Ar ddechrau'r mis, yn 94 oed bu farw Mrs Margaret Williams, Greigwel; yn nhŷ ei mab Dic yn Stryd y Dŵr. 'Roedd yn un o gymeriadau mwyaf adnabyddus yr ardal - wedi rhoi oes faith o wasanaeth ffyddlon fel organydd yng Nghapel Bethel, y Wesleaid. Bu'n ffyddlon i'w chapel a'i chrefydd hyd y gallodd. Cydymdeimlir â'i thri phlentyn, Mrs Meiriona Rowlands, Mr John Williams a Mr Richard Williams yn eu colled.

Mrs Mary Blodwen Morris. Ar Mawrth 6 bu farw Mrs Mary Blodwen Morris, Blodwel, Dôl Elidir, yn 76 oed. Cafodd salwch blin am beth amser, a dioddefodd y cyfan yn dawel a dirwgnach, ac yn ddiolchgar i'w theulu am bob cymorth. Gwraig dawel ydoedd, yn gymwynasgar a charedig, a chafodd fwynhad a phleser di-ben-draw yn ei theulu, pedair merch ac un mab. Estynnir cydymdeimlad i'w gŵr Mr Howell Morris, i'r plant, Jane, Beti, Beryl, Gwyneth a Huw, y wyrion a'r teulu oll yn eu colled.

DIOLCH - Dymuna Mr Howell Morris, a'r teulu, Blodwel, Dôl Elidir, ddiolch yn ddiwyll iawn am bob mynegiant o gydymdeimlad a charedigrwydd yn eu profedigaeth. Diolch hefyd i'r meddyg a'r nyrsus lleol am eu gofal tyner.

DYDD GWEDDI - Yn Festri Gorffwysfa, cynhaliwyd Dydd Gweddi Merched y Byd dan lywyddiaeth Mrs Gwynfor Williams, Gorffwysfa. Gwasanaethwyd gan Mrs Dwynwen Roberts, Preswylfa; Mrs Rhona Thomas, Preswylfa; Mrs Eluned Mai Jones, Gorffwysfa; Mrs Lowri Davies, Jerusalem; Mrs Arthur Jones a Miss C. Gillespie, Eglwys Sant Padarn; Mrs J.M. Jones a Mrs J. Ll. Jones, Capel Coch; Mrs Eurwyn Jones a Mrs Dilys Owen, Nant Padarn.

YMDDEOL - Chwith i'r ardalwyr fydd cael 'Meirionfa' wedi cau, y siop fach 'bob dim' y byddai pawb yn gallu galw yno unrhyw amser, a chroeso bob tro, hyd yn oed pan fyddai amser cau wedi pasio ers oriau, a gorfod cnocio'r drws cefn am dorth neu beint o lefrith.

Diolch Dilys Baylis am eich cyfraniad i'r ardalwyr. Gresyn clywed am siopau bach yn cau ond 'rydych yn haeddu seibiant. Pob hapusrwydd i chi wedi i chi ymddeol fel hyn, a chofiwch y bydd 'Meirionfa' ar gof a chadw trigolion yr ardal am lawer blwyddyn faith.

YN GWELLA - Da yw clywed bod Mr Richard Jones, Stryd Fawr yn gwella yn yr ysbyty ym Mangor. Hefyd Mr R.J. Hughes, Ffordd Padarn, yntau yn y Rhy. A Mr R. Evans, yntau yn yr ysbyty yng Nghaernarfon.

PEN-BLWYDD - Llongyfarchiadau i Miss Nell Davies, Stryd Siarlot ar gyrraedd ei 80 mlwydd oed.

DATHLU GWYL DDEWI - Yng

ngwesty Victoria daeth 125 o aelodau clwb yr henoed i ginio ardderchog i ddatlu Gŵyl Ddewi. Croesawyd hwynt yno gan Mrs Meira Bryn Hughes, Llywydd Cymdeithas yr Henoed, a chyfeiriodd at y rhai oedd yn methu presenoli eu hunain oherwydd afiechyd. Diolchodd Mr John Roberts ar ran y pensïynwyr am y wledd a drefnwyd gan Bwyllgor yr Henoed.

Dilynwyd y wledd gan raglen o adloniant ysgafn gan Barti Merched, Capel Mawr, Llanrug dan arweiniad Mrs W.O. Roberts. Cludwyd y pensïynwyr yn ôl a blaen gan gyfeillion o'r ardal a da yw diolch i'r cyfryw am y gymwynas: Mrs Mair Roberts, Stâd Minffordd, Llanrug; Harry T. Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant; Mrs Betty Williams, 4 Glan Peris; Mrs Morfudd Jones, Erw'r Coed, Glan Peris; Miss Gillespie, Stryd Fawr; Mrs Ella Hourd, Afallon; R.V. Jones, 31 Newton Street; Mrs M Bryn Hughes, Stryd y Cae; Mr T. Maxwell; Mr Ted Thomas, Mr a Mrs Eurwyn Jones, Delfryn; Mrs Helen Morris, Oakfield; Mr William Roberts, Hyfrydle; Iwan Evans, Gift Shop; John Davies, Modurdy Snowdon, Evan Wilson Hughes, 84 Stryd Fawr.

Mawr yw dyled y gymdeithas am weithgarwch yr ysgrifennydd, Annie Jones, Minafon. Mae hi bob amser yn barod i gynorthwyo unrhyw aelod.

DIOLCH - Dymuna pwyllgor Eisteddfod Capeli Llanberis ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion o dylsau i'r Eisteddfod eleni: Mrs J. Jones, Peris Veiw; Mrs Pritchard, Namor; Mr a Mrs Owen; Coed Mawr; Mr a Mrs I.E. Jones, Erw'r Coed; Mrs C. Roberts, Anfield a Mr J.S. Thomas, St Warden.

PRIODAS - Ar ddechrau'r mis yng nghapel Preswylfa gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu, priodwyd Lilian Morgan, merch Mrs M. Mdran, New Bod Eilian, a Ronald Gwynhaf Jones o Gaernarfon.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ieuanc.

NOSON O ADLONIAINT - Nos Sadwrn, Mawrth 8 yng Ngwesty'r Padarn Lake mwynhawyd noson o adloniant yng nghwmni John Ogwen a Pharti Eryri. Arweinwyd y noson gan Mr Eric Morgan, Llanbedr.

Enillwyr y raffl oedd 1. 7 Maes Eilian, Dinorwig - cyfasau. Jones, 16 Maes Padarn - chwsgi. Colin, Glan y Don - hamper. Carol, 20 Caer Carreg, Caernarfon - sieri. Dilys Phillips - tyweli. Hefin, Balaclava - Powlen Ffrwythau, 12 Vaynol Cottages - sieri. Elwyn Ffoulkes - Cas Clustog. Wil Lôn Bost - Melysion. 18 Dôl Elidir - Ffrwythau. Mrs Lovell, Nant Peris - siocled. 3 Maes Padarn - Polish car.



Lisa Rudkin yn gwisgo gwisg Cymreig a wisgwyd gyntaf gan ei nain adeg arwisgo Tywysog Cymru, 1911.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y noson, yn enwedig Mr Ken Jones, Maes Padarn, a gwesty'r Padarn Lake.

EISTEDDFOD Y CAPELI - Ysgrifennydd: Mrs M. Baylis, Is-ysgrifennydd: Mrs Catherine Williams, Trysorydd: Mrs Ceinwen Williams.

Nos Iau, Mawrth 13 a nos Wener, Mawrth 14 yng nghapel Gorffwysfa, cynhaliwyd Eisteddfod Capeli Llanberis.

Y beirniaid oedd Cerdd: Mr Walter Davies, Ynys Môn, Adrodd: Mr Selwyn Griffith, Bethel, Llenyddiaeth: Mr J.H. Hughes, Bethel, Arlunio: Mr John Williams, Maes Llafur: Mrs Owen, Meifod a Mrs Owen, Wyddfud, Gwnio: Miss Eleri Parry. Cyfeilyddes yr Eisteddfod: Mrs Lloyd, Arweinyddion yr Eisteddfod: Parch M. Robinson, Parch H.J. Hughes, Mr Cledwyn Parry a Mr Vernon Hughes.

CANU
Dan 4: 1. Elin Angharad a Jason, 2. Iona ac Arwyn, 3. Llion, Dylan a Rhian.

Dan 5: 1. Dylan, 2. Anthony, 3. Steven.

Dan 6: 1. Jason, 2. Hayley, 3. Bruce ac Alun.

Dan 7: 1. Edward, 2. Alan, 3. Glenda.

Dan 8: 1. Dylan, 2. Marc, 3. Darryl.

08 i 10: 1. Helen Mai, 2. Nia Thomas, 3. Siân Elen.

o 10 i 12: 1. Morfen, 2. Petula, 3. Einir.

o 12 i 14: 1. Rhiannon, 2. Menai, 3. Iona a Bethan.

o 12 i 17: 1. Rhian, 2. Dilys, 3. Amanda.

Deuawd: 1. Dilys a Lynne, 2. Bethan ac Amanda, 3. Rhiannon a Menai.

Parti Canu dan 10: 1. Parti Gillian, 2. Parti Helen, 3. Parti Derfel.

Parti Canu dan 17: 1. Parti Wendy, 2. Parti Ann.

Cân Actol: 1. Saith Gŵr Diog, 2. Deg 'Deryn Bach, 3. Y Nos.

Modulator. Dan 10: 1. Siân Elen, 2. Nia Gwyn, 3. Siân Gwyn. Dan 12: 1. Janet, 2. Catrin, 3. Petula. Dan 17: 1. Rhiannon, 2. Bethan.

Piano
Dan 10: 1. Siân Elen, 2. Helen Mai, 3. Siân Gwyn a Nia Gwyn.

Dan 12: 1. Ffion Jones, 2. Bethan, 3. Janet.

Dan 14: 1. Rhiannon, 2. Bethan Hughes, 3. Iona.

Dan 17: 1. Dilys, 2. Rhian.

Deuawd Piano: 1. Bethan a Carys, 2. Nia a Dilys.

Unawd Gitâr: 1. Cemlyn.

Unrhyw Offeryn heblaw'r piano: 1. Rhian, 2. Cemlyn, 3. Bethan.

ADRODD
dan 4: 1. Arwyn, 2. Dylan, 3. Rhian, Eleri Angharad, Jason a Iona.

Dan 5: 1. Dylan, 2. Anthony, 3. Eryl ac Alwyn a Llinos Haf, 4. Darren a Steven.

Dan 6: 1. Bruce, 2. Jason, 3. Alun.

Dan 7: 1. Iestyn, 2. Deian, 3. Edward, Simon ac Annette.

Dan 8: 1. Dylan, 2. Delyth, 3. Einir.

o 8 i 10: 1. Helen Mai, 2. Nia Thomas, 3. Nia Gwyn.

o 10 i 12: 1. Bethan, 2. Gwynfor, 3. Ann.

o 12 i 14: 1. Dafydd, 2. Rhiannon, 3. Melony.

Dan 17: 1. Hefin, 2. Melony

Cydarrodd dan 8: 1. Parti Geraint, 2. Parti Gwenlli.

Dan 12: 1. Parti Petula.

LLENYDDIAETH
Dan 7: 1. Julie, 2. Jennifer, 3. Iestyn.

Dan 8: 1. Dylan, 2. Delyth, 3. Einir.

Dan 9: 1. Nia Thomas, 2. Lisa, 3. Jackie.

Dan 10: 1. Helen Mai, 2. Nia Gwyn, 3. Siân Elen, 4. Gillian.

Dan 12: 1. Bethan, 2. Ann, 3. Sharon, 4. Colin.

Dan 14: 1. Rhiannon, 2. Hefin, 3. Iona, 4. Dafydd.

Dan 17: 1. David John, 2. Carys a Rhian, 3. Bethan ac Amanda.

ARLUNIO
Dos. Meithrin: 1. Dylan, 2. Elin, 3. Eryl.

Dobarth 1: 1. Anthony, 2. Carys, 3. Hayley.

Dobarth 2: 1. Deian, 2. Glenda ac Edward, 3. Alun.

Dobarth 3: 1. Einir, 2. Christine, 3. Jennifer.

Safon 1: 1. Delyth, 2. Lisa, 3. Dylan.

Safon 3: 1. Eirian, 2. Beverley, 3. Deborah.

Safon 2: 1. Nia Thomas, 2. Nia Gwyn, 3. Gareth.

Safon 4: 1. Andrew, 2. Mark, 3. Colin.

Ysgol Brynrefail
Dosb. 1: 1. Eifion.

Dosb. 2: 1. Steven, 2. Iwan, 3. Dafydd.

Dosb. 3: 1. Rhiannon, 2. Paul, 3. Keith a Menai.

Dosb. 4: 1. Hefin, 2. David John.

GWNIO
Ysgol Dolbadarn

Safon 1: 1. Jackie.

Safon 2: 1. Siañ

Safon 3: 1. Sharon, 2. Catrin a Helen Mai, 3. Gillian.

Safon 4: 1. Ffion, 2. Ann ac Einir, 3. Janet.

Ysgol Brynrefail
Dosb. 2: 1. Melony.

Dosb. 3: 1. Bethan, 2. Cheryl, 3. Bethan a Wendy.

Dosb. 4: 1. Amanda.

MAES LLAUFUR
Dan 5: 1. Llinos ac Eryl, 2. Dylan, Rhian, Dylan Davies, 3. Jason.

Dan 6: 1. Hayley, 2. Nicola, 3. Steven.

Dan 7: 1. Glenda, Lyn, Euron, Deian, Alan, ac Iestyn. 2. Annette, Lyn, Alun a Cai.

Dan 8: 1. Delyth, Einir, Geraint, Julie a Trystan, 2. Darryl, 3. Eirian, 4. Justin, 5. Simon.

Dan 9: 1. Delyth, Jackie a Dylan.

Dan 10: 1. Nia Gwyn, Siân Elen ac Arwyn, 2. Siân Gwyn.

Dan 11: 1. Gillian, Catrin, Eirian a Sharon.

Dan 12: 1. Ann, 2. Mark,

Dan 14: 1. Bethan a Geraint, 2. Melanie

Dan 17: 1. Amanda.

**AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO**

Eric Morris



**Bwsiau Arfon
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254**

LLANBERIS




TYSTYSGRIFAU – Llun o Gadlanciau Sant Ioan, Llanberis yn derbyn eu tystysgrifau Cymorth Cyntaf oddi wrth y Cyngorydd Trevor Williams mewn cyfarfod arbennig yn Neuadd yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, Mawrth 12. HEFYD YN Y LLUN GWELIR AELODAU YN Adran Iau fydd yn sefyll yn arholiad y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd mae'r

cadlanciau i gyd yn brysur yn gweithio ar bynciau armywiol hyd at y safon angenrheidiol ar gyfer bathodyn 'Grand Priory' Sant Ioan. Yn y llun efo'r cadlanciau a'r Cyngorydd Trevor Williams mae Mr H. Owen, yr Arolygydd Rhanbarthol, a Mr E.M. Lamb, Yr Hyfforddwr.

Enwau'r Cadlanciau yn y llun yw: Eifion Peris Roberts (Nant Peris), ac

Alison Roberts; Bethan Wyn Jones; Maldwyn Lewis; Arwel Wyn Roberts; David Ian Edwards; Huw Geraint Harries; Williams Colin Saynor; Keith Parry; Barry Hinton Boyle; Robert Ian Roberts; Karl Roberts; Gwynfor Wyn Williams; Allan Evllis; Brian Roberts; Ceirion Hughes; Kevin Pryddach; Nigel Wyn Rowlands; John Haydn Hughes (i gyd o Lanberis).



Petula Williams — 2il mewn ras draws gwlad a gynhaliwyd yng Nghai Connah yn ddiweddar.



Diane Jones — 1af ar arlun o dan 12 yn Eryri. David Gartside — 1af, ffotograffiaeth dan 12 yn Eryri.

DOWCH I GYSTADLU

Mae'r cystadlu ar y testunau hyd at 12 oed yn gyfyngedig i blant dalgylch Ysgol Gynradd, Tan-y-coed, Penisarwaun. Mae'r testunau dros 12 oed hyd at 18 oed yn agored i ymgeiswyr o ardal *Eco'r Wyddfa*. Rhaid anfon y gwaith yn y cystadleuthau arlunio a gwaith llaw dros 12 oed i'r Ysgrifennydd erbyn Ebrill 20, 1980. Rhaid anfon y cyfansoddiadau llenyddol dros 12 oed i'r Ysgrifennydd mewn amlenni gyda rhif a thestun y gystadleuaeth arni (a'r enw priodol, ffug enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen dan sêl gyda hi) erbyn Mawrth 30, 1980. Mae'r cynnyrch coginio i'w anfon i Festri Capel Glasgoed, Penisarwaun erbyn 4.30 p.m. ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

Rhestr y cystadleuthau dros 12 oed (mae'r cystadleuthau hyn i gyd yn agored i blant bro'r *Eco*, felly dewch i gystadlu!)

CERDD:

11-13 oed 'Y Glöyn Byw', W.S.G. Williams.

13-15 oed Hunan Ddewisiad.

15-18 oed Cân Bop — Hunan Ddewisiad.

Dan 18 oed Grŵp Modern.

Deuawd dan 18 oed Hunan Ddewisiad.

ADRODD:

11-13 'Y Cudyll Coch' (Cerddi a Baledi I.D. Hooson).

13-15 oed 'Y Ras' (Cân neu Ddwy, T. Rowland Hughes).

15-18 oed (a) Unrhyw ddwy ganiad o awdl 'Y Gwladwr', Gerallt Lloyd

Owen (Cerddi'r Cywilydd).

NEU

(b) (Ugain o Gerddi — T.H. Parry-Williams)

PARTI ADRODD (Oed Uwchradd)

Rhannau o 'Seimon Mab Jonah' (Y Gwin a Cherddi Eraill, I.D. Hooson).

BARDDONIAETH:

11-13 oed 'Y Mynydd'

13-15 oed 'Y Machlud'

15-18 oed 'Y Storm'

RHYDDIAITH

11-13 oed — Dyddlyfr Wythnos

13-18 oed — Llyfr Lloffion ar unrhyw destun diddorol.

Rhoddir Tlws yr Eisteddfod, i'w gadw am flwyddyn, am y cynnyrch gorau o blith y Cystadleuthau Barddoniaeth a Rhyddiaith ym marn y Beirniad Llên.

COGINIO

Dan 18 oed 'Victoria Sponge' 'Sausage Rolls'

ARLUNIO

11-13 oed 'Poster Disco'

13-15 oed 'Cynllunio clawr llyfr'

15-18 oed Hunan Ddewisiad

GWAITH LLAW

11-13 oed 'Llyfr Natur'

13-15 oed Addurno Pot Blodau

15-18 oed 'Collage' allan o lysiau wedi eu sychu (pŷs, pasta neu debyg)

Unrhyw ymholiadau â:

Tegid Roberts (Ysgrifennydd Arwel, Ponrhythallt, Llanrug.

**CWMNI THEATR
IEUENCTID
CENEDLAETHOL
URDD GOBAITH CYMRU**

Y BRENIN ARTHUR

gan Cefin Roberts ac Ann Hopcyn

Drama Gomisiwn fydd cynhyrchiad Cwmni Theatr Ieuencid Cenedlaethol, Urdd Gobaith Cymru eleni. Ysgrifennwyd y Ddrama gan Cefin Roberts, a'r gerddoriaeth gan Ann Hopcyn. Comisiynwyd y gwaith gyda nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae naw deg o ieuencid yn y Cwmni eleni, yn cynnwys actorion a thechnegwyr, o bob rhan o Gymru.

Bydd y Cwmni yn ymgynnull yng Ngwersyll Llangrannog, nos Wener, Mawrth 28, ar gyfer wythnos o gwrs a hyfforddiant. Treulir yr wythnos ddilynol ar daith i Theatrau Gogledd a Chanolbarth Cymru. Dyma'r daith:

Nos Sul, 6 Ebrill, 8.00 — Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug.

Nos Lun, 7 Ebrill, 7.30 — Theatr Gwynedd, Gwynedd.

Nos Fawrth, 8 Ebrill, 7.30 — Theatr Gwynedd, Bangor.

Nos Fercher, 9 Ebrill, 7.30 — Theatr Gwynedd, Bangor.

Mae'r Ddrama'n dilyn helyntion Myrddin y Dewin gyda'i gyfaill ifanc, Tomos, o'r ugeinfed ganrif; yn ôl i gyfnod y Marchogion a'r Ford Gron. Mae stori Arthur a Gwenhwyfar, Lawnsod a Chamlan yn cael eu gwau i'r plot. Cawn gwmni'r wraig ddrygionus Morganna, a'i mab Medrawd, sy'n achosi trwbl, ac yn rhoi bywyd i'r Ddrama.

Dyma'r tro cyntaf i Cefin Roberts ac Ann Hopcyn ysgrifennu ar gyfer Cwmni Theatr Ieuencid yr Urdd. Tim newydd a thalentog, sydd wedi creu gwaith bywiog i'r Theatr.

Ar seithfed pen-blwydd y Cwmni, dyma Sioe arbennig a fydd yn apelio at bawb o'r teulu ac ynddo dalent arbennig.

**WIL
a
VAL GUY
TREFLYN
STORES
BETHEL**

**Bwydydd, Melysion,
Teganau a Diodydd
Y FELINHELI 670237**

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: PADARN 278**

Pryd gorau'r fro.

Ffiniau'r Gorffennol



Yn sefyll o'r chwith i'r dde: David Elias Pritchard, Jo n, Griffith, Elias Morgan. Yn eistedd: Owen Elias Pritchard, Catrin Jane, William.

HANES TEULU CERDDOROL ERYRI HOUSE

(Y lluniau trwy garedigrwydd Mr a Mrs J.G. Jones, 1 Gor fwysfa, Llanrug)

Adeiladwyd Eryri House (ond a elwir gan bawb heddiw 'Yr Institute') oddeutu 1860. Cafodd ei adeiladu fel tŷ a siop i Elias Pritchard (1841-1899) a'i briod Ann Pritchard (1846-1891).

Chwarelwr oedd Elias Pritchard. Ann fyddai yn edrych ar ôl y siop a'r cartref. Magwyd wyth o blant yn Eryri House, saith o fechgyn ac un ferch. Bu un mab farw pan yn bump oed.

Wedi marw Mrs Ann Pritchard, y fam, ym 1891 cadwodd y ferch Catrin Jane y siop hyd 1915.

Oddeutu 1930 gwerthwyd y tŷ a'r siop i Mr Chatworthy. Cadwai ei wraig siop lestri yno. Ond ni wnaethant fawr o fusnes ac felly 'doedd dim i'w wneud ond mynd yn ôl i Lundain. Yr oedd Mr Chatworthy yn gerddor gwych a'i wraig yn banydd enwog.

Gwerthwyd y tŷ a'r siop wedyn i deulu o Rochdale a'i droi yn dafarn datws. Ond ni chawsant hwythau hwyl ar y busnes. Felly aeth y teulu yma eto yn ôl i Rochdale.

Tua'r amser hynny yr oedd Pwyllgor yn Llanrug wedi penderfynu codi canolfan i'r ardal. Prynodd y Pwyllgor y tŷ a'r siop a'i addasu fel Sefydliad Coffa Arwyr Llanrug, Rhyfel 1914-18. Rhoddwyd bwrdd biliards ar y llawr a thabled coffa ar y mur. Erbyn hyn y mae tabled coffa arall wedi ei roi ar y mur i gofio arwyr yr Ail Ryfel Byd 1939-45. Gwelsoch lun yr ail dabled yn rhifyn Rhagfyr Eco'r Wyddfa.

Yr oedd ystafell i'r Merched a llyfrgell yno ar y dechrau. Byddai amryw bwyllgorau yn ymgynnull yno, a chyfarfodydd Cymorth Cyntaf St Ioan, a Sefydliad y Merched ac amryw o gyfarfodydd eraill. Heddiw cynhelir Clwb yr Henoed, Blodau'r Grug, un ai yn 'Yr Institute' a daw rhai o'r

meddygon i gynnal clinig yn ystod yr wythnos. Gwneir defnydd da o'r Ganolfan gan y Majorettes hefyd gyda'u hymarfer bob wythnos.

Dewisiodd y Pwyllgor y diweddar Elias Pritchard yn ofalwr cyntaf y Sefydliad. Mab hynaf Griffith Elias Pritchard a anwyd yn Eryri House oedd Elias Pritchard.

Rhyfeddod onide oedd magu chwech o frodyr a phob un yn ymddiddori mewn cerddoriaeth. Aeth pump o'r meibion i America a buont i gyd yn llwyddiannus yn eu gwaith ac yn gymeriadau gwerthfawr i gymdeithas yno. Yr olaf i fynd i America oedd Elias Morgan Pritchard yn 1906 ond daeth yn ôl i Gymru yn 1911. Un o'r bechgyn yn unig arhosodd gartref, sef Griffith Elias Pritchard a ddaeth i fyw i Fron Eryri. Bu ef yn organydd yng Nghapel Pontrhythallt ym 1907 a chofiaf edrych ar Griffith Elias Pritchard yn eistedd wrth yr harmoniwm i'w chwarae yn y gwasanaeth cyntaf. Cofiaf ei fod yn bur nerfus. Yr oedd ganddo lais tenor tlws hefyd i ganu. Am ei wasanaeth maith rhoddwyd cloc hardd yn anrheg i Griffith Elias Pritchard gan Eglwys Pontrhythallt. Cedwir y cloc heddiw gan Mr a Mrs Emlyn Wyn Pritchard, Pontllyfni, sef mab Griffith Emlyn Pritchard, Bron Eryri a'i briod. Y mae'r cloc mewn cyflwr perffaith o hyd.

Bu John Elias Pritchard yn arwain y gân yn Y Capel Mawr, Llanrug ac Owen ei frawd yn organydd yn y Capel cyn iddynt fynd drosodd i America.

Ym 1978 daeth mab i John Elias Pritchard sef Mr William Pritchard (Bill) drosodd o America i gael gweld hen gartref ei dad a'i fam a chael gweld bedd ei daid a'i nain yn mynwent Llanrug. Mawr oedd llawenydd

Bill o gyfarfod aelodau o'r teulu.

Y mae tri o ddisgynyddion y teulu lluosog yn byw o hyd yn Llanrug, - Mrs Thomas, Min y Rhos (Sally); Mrs Jones, 1 Gorffwysfa (Jennie May); Mr

Arthur Pritchard, Glanfa; sef plant i Mr a Mrs Griffith elias Pritchard. Y mae Mrs Ann Jones, merch Mr a Mrs Elias Morgan Pritchard yn byw yn Nhal-y-sarn.

Y SEFYDLIAD COFFA

EU HABERTH NID A'N ANGOR			
OWEN DAVIES, GLAWDD LLWYD.	EBENEZER JONES, BRYN CRO.	IDRIS PHILLIPS, BRYN HAFOD.	
THOMAS DAVIES, 4 BRYNGWYN TERR.	THOMAS C. JONES, GLANLLYN.	WILLIAM J. PRITCHARD, MINFFORDD.	
THOMAS J. DAVIES, BRYNMIHANCEL.	WILLIAM JONES, ELIDIR VIEW.	HUGH M. ROBERTS, ISBRYN.	
WILLIAM J. DAVIES, EIRIANFA.	WILLIAM JONES, FRONHEULOG.	RICHARD M. ROBERTS, BRYN BRUNO.	
EVAN P. EVANS, LLYS IDRIS.	GRIFFITH T. KNOWLES, BRYNGWYN TERR.	DAVID THOMAS, CERN COED.	
THOMAS GRIFFITH, TANYBRYN.	WILLIAM T. KNOWLES, " "	FRANCIS THOMAS, 3 BRYNGWYN TERR.	
THOMAS HUGHES, TRIGLE.	ROBERT LLOYD, LLYS AWEN.	HUGH WILLIAMS, BRYNGWYN MAWR.	
WILLIAM W. HUGHES, CAENEWYDD.	JOHN E. OWEN, PANTIRION.	JOSEPH WILLIAMS, DERLWYN.	
DAVID JONES, CROESLON NEWYDD.	HENRY L. PARRY, CELLIED.	RICHARD WILLIAMS, TANGOB TERR.	
	KELYTH P. LL. WILLIAMS,	LLWYNBRAIN.	

YR YMDDIRIEDOLWYR GWREIDDIOL

Dyma enwau Ymddiriedolwyr cyntaf y Sefydliad Coffa. T.R. Jones, Rhianfa; J.M. Jones, Hedsor Villa; David L. Jones, Bryn Hyfryd; Mrs Jane Closs, Llwyn y Brain; Mrs Ann Roberts, Tŷ Fry; G.T. Griffith, Ddôl Helyg; R.T. Griffith, Ddôl

Helyg; John T. Edwards, Fron Chwith; Yr Ymddiriedolwyr heddiw ydyw - Mri A.W. Griffith (Llywydd), Inigo Jones, Arthur Pritchard, John Williams, William Pritchard, J. Olau Williams, Gwilym Roberts, J. Emlyn Jones (Trysorydd), J. Lewis (Ysgrifennydd).

Mt Thomas W. Jones ydyw gofalwr 'Yr Institute' heddiw.



ARWYR Y RHYFELOEDD

"Am Annwyl lu - Cu y Cof"

Aeth blynyddau heibio a ninnau'n brudd Mewn hiraeth amdanant o ddydd i ddydd;

Ond dug tlws atgof lewyrch o'u gwedd I lenwi'n calonau â thawel hedd.

Byw y maent hwy, byw byth yr un oed, Gwyddom mai byw oedd eu pleser

erioed, Maent bellach o gyrraedd brad mawrion y byd.

Fydd môr tragwyddoldeb ddim digon i gyd.

I olchi eu dwylaw o'u gwaed gwirion hwy,

Aur foliant a ganant mewn Heddwch byth mwy.

(Efelychiad)

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

CWM-Y-GLO

UNDEB Y MAMAU → Cynhaliwyd Cyfarfod i aelodau Undeb y Mamau yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Mawrth 11. Arweiniwyd y gwasanaeth agoriadol gan y Rheithor a llywyddwyd gan Mrs D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy. Y wraig wadd oedd y Dr Enid Roberts, Bangor a rhoes sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ar Eglwys Gadeiriol Bangor a dangosodd nifer o sleidiau. Hawdd gwybod ei bod yn feistr ar ei gwaith a mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Y gwestwagedd oedd Mrs M.E. Hughes a Mrs T. Roberts. Diolchwyd iddynt gan Y Rheithor a diolchodd Mrs M.E. H ghes i'r siaradwr. Canwyd y piano gan Miss C. Hughes. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

URDD GOBATH CYMRU – Pentrefi Cwm-y-glo a Brynrefail. Aed ymlaen gyda rhaglen y tymor nos lau, Chwefror 21, gyda Mr Harris Thomas yn difyrru'r plant.

Bu nifer o'r aelodau yn ymarfer yn galed ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd, am y tro cyntaf. Yna, dydd Sadwrn, Mawrth 8, bu rhai unigolion a phartion adrodd a chanu yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch.

Nos Lun, Mawrth 17, cynhaliwyd noson goffi yn neuadd yr ysgol. Gwnaed elw o £146 i'r gangen. Enillwyd boc o nwyddau gan Mrs Helen Roberts, Llwyncoed Bach, Penllyn. Miss N. Williams, Allt Goch, Cwm-y-glo a dderbyniodd focs o siocled a roddwyd gan Lythyrdd Brynrefail a Miss M. Williams, Caernarfon a enillodd focs siocled a roddwyd gan Lythyrdd Cwm-y-glo. Enillodd Mr Jackson, Wrecsam focs o dyweli a roddwyd gan siop London House, Cwm-y-glo. Derbyniodd Liz, Creigle, Brynrefail set o fygiau a roddwyd gan y Becws, Cwm-y-glo. Mrs Squires, 82 Maes Padarn en llodd wydrau a roddwyd gan siop sgolion Cwm-y-glo. Enillodd Mrs Peggy Rowlands, Allt Goch, Cwm-y-glo botel o sieri. Mrs Wardle, Llythyrdd, Cwm-y-glo enillodd y ddol a wisgwyd mor ddeniadol gan Mrs Moira Ellis, Brynrefail. Gwnaeth Mrs Glenda Roberts deisen hardd a roddwyd gan Mrs Elizabeth Hughes, Dolafon a Margaret Williams, Bryn a'r enillydd oedd Mrs Eurwyn Jones, Llanberis.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth parod a'u cyfraniad ar y noson. Dymunwn ddiolch hefyd am y rhoddion hael a gafwyd.

O'RYSBYTY – Balch oeddem o ddeall bod Mrs M.O. Jones, 21 Dolafon a Mr Tom Owen, 3 Dolafon, bellach adref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad buan i'r ddau ohonynt ac i Mrs J. Harris, 4 Craig y Don.

CYDYMDEIMLAD – Yn ddiweddar goddefodd dau deulu brofedigaeth, ac fe anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y ddau deulu.

Bu farw chwaer Mr H. Roberts, Bod Gwynedd, sef Mrs H. Owen, Gwynfryn, Rhosgadfan a hefyd brawd i Mr W.R. Jones, 7 Dolafon, sef Mr J.G. Jones, Blackburn.

PÊL-DROED – Oherwydd nad yw y Cae Chwarae yn barod i'w ddefnyddio, y mae tîm Cynghrair Gwryfai y pentref yn chwarae eu gemau ar gae Ddôl-y-goeden, Llanberis. Chwaraewyd y gêm gyntaf am y tymor, ddydd Sadwrn, Mawrth 15 yn erbyn Llanberis, Trechwyd Cwm o chwe gôl i un, gyda Dilwyn Morris yn rhwydo dros Cwm.

CLWB IEUENCTID – Fe fu tîm o'r Clwb yng Nghystadleuaeth Disgo Dawns yng Nghaernarfon yn ystod y mis diwethaf. Pedwar o fechgyn hyderus o'r pentref oedd aelodau'r tîm ac fe



ddaethant yn drydydd, gan ennill tlws i'w ddal am flwyddyn.

Yn y llun gwelir tri aelod gyda'r tlysau (o'r chwith i'r dde) Michael J. Williams, Barry Gill a Kevin Owen. Yn anffodus nid oedd Arfon Jones ar gael pan dynnwyd y lluniau. Mr J. Harris, 4 Craig-y-don a dynnodd y lluniau.

MERCHED Y WAWR – Ar Chwefror 20 cyfarfu'r gangen yn y ganolfan gymdeithasol. Mr D.G. Ellis, Gweledfa, Brynrefail oedd y gŵr gwadd. Swyddog prawf yn ardal Pwllheli yw Mr Ellis, a rhoddodd fraslun diddorol iawn o'i waith dyddiol. Ar y diwedd cafodd amryw o'r aelodau gyfle i ofyn cwestiynau iddo.

Mrs Gwyneth Ch ck, Tan y Bryn oedd llywydd y noson a chroesawodd Mrs Webb, Craig y Don i'n plith fel aelod newydd. Rhoddwyd y diolchiadau gan Miss Mat Pritchard. Mrs E.M. Jones a Miss O. Parry Jones Gwylfa oedd yn gyfrifol am y te a gwobr y mis, a enillwyd gan Mrs K. Watkins, Dolwen.

Swper traddodiadol Cymreig wedi ei baratoi gan aelodau'r gangen gafwyd i ddathlu Gŵyl ein Nawdd Sant nos Fercher, Mawrth 19.

Cawsom groesawu Parti Merched y Glannau o'r Felinheli i'n diddori gyda rhaglen amrywiol. Mwynhawyd eu cwmni yn fawr iawn. Diolchwyd iddynt gan Mrs K. Watkins a Mrs Hannah Jones.

Cydymdeimlodd y llywydd Mrs Lowri Prys Roberts â Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar. Byddwn yn ymweld â changen Brynaerau ar Ebrill 2 a chynhelir arwerthiant Moes a Phryn er budd gwibdaith flynyddol y pensïynwyr ar Fai 21.


CLWB ERYRI

Cynhaliwyd Swper Gŵyl Ddewi Clwb Eryri nos Wener 29 Chwefror yng ngwesty Gwynedd, Llanberis o dan lywyddiaeth lolo Llywelyn. Y gŵr gwadd oedd y Prifardd James Nicholas, a chafyd anerchiad gymus iawn ganddo. Enillwyd cystadleuaeth y limerig gan lolo Huws Roberts, a'r Parodi gan Rol Williams. Y beirniaid hwyliog a ffraeth oedd Harri Gwynn a John Roberts Williams. Talwyd y diolchiadau gan Gwynfor Williams, a chafwyd y cyfarchion barddonol gan fardd y Clwb – Llion Jones. Hysbysodd yr ysgrifennydd fod yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos a Mr Angus Macdermid, BBC, wedi derbyn gwahoddiad i annerch y Clwb y tymor nesaf. Swyddogion y Clwb am y tymor nesaf fydd: Llywydd: Brython Jones, Deiniolen, Is-lywydd: John Roberts, Llanberis, Trysorydd: Ieuan Ellis Jones, Llanberis, Cofnodydd: Stanley Owen, Llanberis, Bardd y Clwb – Llion Jones, Llanberis, Ysgrifennydd: Rol Williams, Waunfawr.

GORFFENNOL CWM



Stryd o'r gorffennol pell.



Wynebau o'r gorffennol agos. Pedwar o hogia'r Cwm tua 1949. Pwy ydyn nhw tybed? (Llun trwy garedigrwydd Mr E. Williams, Fron Gader).

TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU – i Miss Anita Edmund Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Fawrth 15.

Hefyd i Mr Michael Blanchard, Y Llythyrdd ar ei ddyweddïad â Miss Sharon Elis, 7 Rhes Efrog, Llanberis. Balch ydym o weld Michael yn gwella'n foddhaol ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

Dymuniadau gorau'r ardal i Sharol a Michael.

Un arall o'r fro sydd newydd gael triniaeth lawfeddygol yw Mrs Nell Jones, 9 Tai Bryngwyn. Erbyn hyn mae Ms Jones hefyd adre', ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Dewi Sant, wedi damwain yn ei chartref. Ein dymuniadau gorau i Mrs Jones. Boed iddi hithau adferiad llwyr a buan.

Yr un yw ein dymuniad i Mrs Megan Williams, Dwyfor. Ar ôl triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon y mae Mrs Williams yn y Groeslon yn aros gyda'i mab a'i merch yng nghyfraith – Mr a Mrs Cemlyn Vaughan Williams. Edrychwn ymlaen am weld Mrs Williams yn ôl yn ei chartref wedi cael gwellhad.

Mwynhaodd Bethan Lewis Parry, Ael-y-Bryn a Manon Llwyd Evans, Carwyn benwythnos hapus yng nghanolfan yr Urdd yng Nglanllyn, dwy o barti o'r Ysgol Gynradd oeddynt.

Mwynhad pur oedd profiad grŵp o ferched y fro nos Fawrth, Mawrth 11 yng nghyfarfod Merched y Wawr yn Llanrug. Y noson hon gwahoddwyd cangen Merched y Wawr Llangefni atom a chawsom noson ddifyr yn cael ein diddori mewn actio, adrodd a chanu gan aelodau o'r ddwy gangen. Llongyfarchiadau'r ddwy gangen am eu cyfraniad gwerthfawr sy'n sicrhau parhad 'Y Pethe' yn ein hardaloedd. Yr ydym yn gwerthfawrogi'n arbennig waith cyson aelodau Llanrug yn eu llafur yn ymarfer yn gyson, a ffrwyth yr ymarfer hwn yn

rhoi cyfle i ni wrandawyr glywed a gwerthfawrogi cynnyrch gorau ein diwylliant Cymreig. Diolch i bob unigolyn sy'n gyfrifol am hyn. Daliwch ati.

Profiad tebyg gafodd y chwiriwydd yng nghyfarfod Unedig Cymdeithas Lenyddol, Pontrhyallt, Hermon, Bryngwyn a Than-y-coed. Dathlu dydd Gŵyl Ddewi yn Nhan Dinas yr oeddynt, a'r wraig wadd oedd Miss Rhiannon James, Bryn Mair gynt. Yma eto, gwelwyd parchu gwir ddiwylliant Cymreig – mewn eitemau gan Mrs Megan Roberts a'i mab Gwyn, ac araith amserol Miss Jones, hithau'n profi gwerth y byw Cymreig naturiol bob dydd.

Y ddau gyfarfod yma yn enghraifft o Gymru yn cadw ei hiaith a'i thraddodiad yn naturiol a di-stŵr. Yr ydym yn ffodus iawn yn y cylch fod gennym arweinwyr o bob oed, sydd yn barod i ddefnyddio'u doniau a'u hamser i hyrwyddo parhad ein hiaith, ein llenyddiaeth a'n Cymreictod.

Am Fargeinion mewn
setiau du a gwyn
a setiau lliw

**SIOP
DELEDU
T
CEPAS**

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG
(Ffôn Llanberis 205 min nos)

SIOPWRAIG YN YMDDEOL



Ganwyd Mrs Dilys Baylis yn Nghan-y-Ffordd, Dinorwig ym 1912. Daeth i fyw i Feirionfa, Llanberis ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf pan aeth ei thad yn ôl i'r chwarel ar ôl y brwydro, a'i mam i ddechrau cadw siop.

Byddai'n helpu yn y siop pan oedd yn blentyn ysgol, pan oedd Mr Jabez Jones yn ysgolfeistr ar 'Dolbadarn' - ac ymhellach yn Ysgol Brynrefail pan oedd Mr Rowlands yn ysgolfeistr yno.

Pan yn 17 oed aeth i Ysbyty Plant Dr. Barnardo yn Llundain i'w hyfforddi fel nyrs plant ac yna yn 'Staff nurse'. Byddai gweddwr Dr Barnardo yn cyfarfod y staff am gyfarfod gweddi yn Stepney.

Daeth Mrs Baylis yn ôl at ei rhieni tua 1935 i'w cynorthwyo gyda gwaith y siop a phan dorrodd yr Ail Ryfel Byd bu'n brysur iawn pan ddaeth dogni ar fwyd, sigarets a melysion.

Priododd â milwr a ganwyd tri phlentyn iddynt tra'n byw yn Llain Hir, Brynrefail, ond yn ôl i Lanberis ar farw ei thad yn 1952 y daeth Mrs Baylis ac yna y bu (28 mlynedd) hyd ei hymddeol Mawrth 1980.

Rhwng y siop, y cartref a'i diddordebau bu'n brysur a hapus iawn. Mae wedi ymddiddori â gwaith capel ac Ysgol Sul; wedi

cyfieithu emynau, caneuon pop a gweithiau clasurol, ac wedi ysgrifennu emynau plant, a'i brawd, Edwin Lloyd Jones wedi cyfansoddi llawer tŷ arnynt. Cafodd gyfieithiad Saesneg 'Tydi a Roddaist' T. Rowland Hughes ar dudalennau'r *Goleuad* saith mlynedd yn ôl -

O Thou who gavest dawn its tint,
And thrill to sunset's glow,
O Thou who fashioned song and scent

And spring in green hedgerow,
Oh! may we now possess that thrill
Which fills the earth with magic still." etc.

Yn sicr, tu ôl i gownter y siop gornel fach y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes, ac mae iddi ffrindiau personol ymysg pobl Llanberis a'r cylch ac ymwelwyr o bob rhan o Brydain sydd yn dal i ddringo'r mynyddoedd. Ond mae'n debyg mai'r henoed o'i chwmpas fydd yn gweld colli'r siopwraig gan iddi fod yn barod bob amser i roi mesur bach o fwydydd ar gyfer eu gofynion a'u harian.

Mae siopau bach yn cau ymhobman, ond hwyrach y bydd galw amdanyn yn ôl eto, ryw ddydd.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

EISTEDDFOD YR URDD

Bu'r ysgol yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd ar Fawrth 15ed. Cafodd y Côr Deusain dan 15 oed gyntaf; eu cyfeillydd oedd Mrs Carys Jones a'u harweinydd oedd Mrs Rhian Ellis.

Daeth dau gôr adrodd yn y tri cyntaf yn yr adran 12-15 oed; Parti Manon yn gyntaf Parti Bethan yn drydydd.

ENWOGION YN YMWELD
Â'R YSGOL

Yn ystod y mis hwn bu darlithwyr enwog yn ymweld â'r ysgol. Diolch iddynt am ddod - yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Dr. Derec Llwyd Morgan a T. Llew Jones.

MIS PRYSUR I'R 6ed DOSBARTH
Bu disgyblion y chweched dosbarth ar amryw o gyrsiau yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Ar yr 8ed o Fawrth bu'r dosbarth Saesneg yn ymweld â'r Brifysgol ym Mangor. Ar y 26ain bu'r dosbarth Hanes i lawr yn Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon, i wrando ar amryw o ddarlithwyr. Ar y 27ain a'r 28ain o'r mis bu deuddeg o'r chweched dosbarth ar gwrs Cymraeg i'r Brifysgol ym Mangor. Hefyd bu Mr Evie Roberts, yr athro arlunio, i lawr yn Llundain, gyda Gareth Roberts a Glyn Jones o'r 6ed dosbarth, i weld arddangosfa arlunio.

HEATHER 'CRADOCK'
A BRYN FÔN

Os gwelsoch y rhaglen 'Sêr' ddydd Llun y 17eg o'r mis, mae'n amlwg eich bod wedi gweld Heather Roberts o Lanberis. Ysgrifennodd i'r rhaglen gyda risêt am Deisen Bwdin, a mynd i lawr i Gaerdydd i goginio gyda Bryn Fôn oedd yn dilyn hynny. Da iawn Heather.

Mwy o 'Sibrydion'
ar dudalen 15

OSMOND
W. SHAW



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio

BWLCH UCHAF

DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffonwch
cyn 10 o'r gloch

\$5,000

THE WIT



STANDING, left, WILLIAM CARVER (b. LOGAN (Kid Curry). Sitting, left to right, HARRY PATRICK, (THE TALL TEXAN), Robert Leroy P. Persons furnishing information only, which may share in the reward. In addition to the above there are some of these men, individually, by banks, rail, Governors of States, where individual members of

THESE REWARDS OFFERED

Bu'r ymateb i'r cwestiwn 'Pwy, Pryd, Ble?' uwchben llun grŵp o ddynion ar dudalen flaen y rhifyn diwethaf ynghyd â'r gorau a dderbyniwyd ar gyfer unrhyw gais gennym.

Gan eich bod bellach wedi hen arfer â gweld lluniau o hen ddosbarthiadau Ysgol Sul, hen chwarelwyr ar achlysuron arbennig ac yn y blaen, meddwl a wnaethom y buasem yn tynnu rhywfaint ar eich coesau y tro hwn, drwy gyhoeddi llun nad



Y ddau lun trwy garedigrwydd Mr Llanbedr Pontsteffan, Dyfed.

EVANS VEHICLE
BODY REPAIRS
& PANEL BEATERS
CLWT-Y-BONT

Ffôn: LLANBERIS 611

am drwsio

TOLCIAU, WELDIO, SPREIO, ATGYWEIRIO
wedi damwain, ac ati.

CEIR AIL-LAW AR WERTH

WARD D BUNCH



Smelled like a skunk! Right, standing, HARVEY LONGBAUGH, (The Sundance Kid), Ben Kilpatrick, (Butch Cassidy).

lead to the arrest of one or all of the robbers will be large outstanding rewards offered for the arrest of the Robbers and Express Companies robbed by them, and if any gang have committed murders and other crimes, a reward of \$10,000.

oedd iddo gysylltiad yn y byd â bro'r Eco (am a wyddom ni!).

Ni chawsom neb yn datgan iddo adnabod un o'r dynion fel ei daid neu hen ewythr ond yn hytrach mae pob un a gysylltodd â ni ar y ffôn neu drwy lythyr, yn llygad ei le. Ie "Y Wild Bunch" ydyn nhw, grŵp o ddynion drwg, yn ôl pob stori, o'r Unol Daleithiau. Cymeriadau o gig a gwaed bellach yn rhan o chwedloniaeth America - ac o'r herwydd maent wedi bod yn destun niferoedd o ffilmiau.



W. Williams, Tŷ'r Ysgol, Cilcennin,

Y CRIW GWYLLT

YR YMATEB

Yn ystod y ddwy flynedd yr oeddwn i a'm teulu yn byw yng Nghnada, cawsom y cyfle i deithio ar hyd cyfandir America.

Yn yr haf, 1972 yr oeddwn yn Nhalaitb Utah lle mae'r golygfeydd yn herio disgrifiad. Yn y dalaith hon gwneir llawer o ffilmiau 'Western'.

Ddim ymhell o Big Rock Sandy Mountain a ysbrydolodd Harry McChintock (Haywire Mac) i gyfansoddi'r gân am y mynydd lliwgar, saif hen gaban bychan lle'r oedd Butch Cassidy a'i fam yn byw. Heddiw mae'n amgueddfa ble mae llawer o'i eiddo, yn cynnwys ei lawddryll, yn cael eu dangos. Yno fe brynais y poster yma sydd yn gopi o'r gwreiddiol ac fe dynnodd fy ngwraig y darlun o'r hen gaban.

O'r pum herwr yn y darlun y tri sydd wedi eu henwogi drwy gyfrwng ffilm a theledu yw Harvey Logan (Kid Curry), Harry Longbaugh (The Sundance Kid) a'r enwocaf ohonynt, Robert Leroy Parker (Butch Cassidy).

Yn y ffilm 'Butch Cassidy and the Sundance Kid' portreadwyd y ddau herwr gan Paul Newman a Robert Redford. Yn ôl y stori hon fe'u lladdwyd yn Ne America ond yn ôl chwaer Butch Cassidy nid felly 'roedd hi mewn gwirionedd.

Ar y teledu yn ddiweddar 'roedd hi'n honni'n bendant fod ei brawd wedi dychwelyd i Ogledd America lle y treuliodd weddill ei oes.

Mr W. Williams,
Tŷ'r Ysgol,
Cilcennin,
Llanbedr Pont Steffan,
Dyfed.
(gynt Bryn Rhydd,
Penisarwaun).

Dôl Rhedyn,
Garth Road,
Borth-y-Gest,
Porthmadog.

Annwyl Syr,

Mewn ateb i'ch cwestiwn 'Pwy, Pryd, Ble?' o'r darlun o bum boneddwr ar dudalen flaen eich rhifyn mis Mawrth, llun yw hwn o Butch Cassidy a'r Wild Bunch, lladron adnabyddus yn America yn y ganrif diwethaf.

Yn y llun, aelodau o'r grŵp yw: Rhes ôl (ch. i dde) - William Carver, Harvey Logan. Rhes flaen: (ch. i dde) - Harry Longbaugh (The Sundance Kid), Ben Kilpatrick, George Leroy Parker (Butch Cassidy).

Yn gywir,
Huw J. Prichard.

Annwyl Olygydd,

Diolch o galon i chwi am y darlun hynod o ddiddorol a ymddangosodd ar dudalen flaen eich rhifyn diwethaf dan y pennawd 'Pwy? Ble? Pryd?' Roedd o ddiddordeb arbennig i mi fel ymchwilydd i hanes y Gorllewin Gwyllt, gan mai llun criw o ddihirod enwocaf y cyfnod ydyw.

Dyma'r enwau - Rhes gefn - Bill Carver (a oedd yn enwog am ddrewi fel ffwlbart); Harvey Logan (yr enwog Kid Curry) - sylwch fel y mae'n sefyll yn ddigon pell oddi wrth Carver. Y rhes flaen: Harry Longbaugh (yr enwog Sundance Kid); Ben Kilpatrick (a adwaenid fel y Tecsau Tal) a'r enwocaf ohonynt oll Robert Leroy Parker neu Butch Cassidy.

Roedd y rhain oll yn aelodau o'r 'Wild Bunch' - ac y mae tystiolaeth eu bod yn hoff o gael tynnu eu lluniau ar ôl lladrad llwyddiannus. Tynnwyd llun hynod o debyg i hwn yn Fort Worth yn y flwyddyn 1900.

Ond o'r fan hyn y mae'r diddordeb yn cynyddu. Mae'n debyg y gwyddoch i Butch Cassidy a'r Sundance Kid gilio i Bolivia, ac yn ôl un traddodiad, iddynt gael eu lladd gan y fyddin yn y wlad honno. Ond y mae amheuan ynglŷn â hyn bellach. Awgrymir gan haneswyr diweddar mai stori a ledaenwyd gan y ddau ddihiroyr eu hunain oedd hon er mwyn osgoi'r gyfraith.

Y mae tystiolaeth hefyd iddynt ymweld â Phatagonia. Tybed a ddaethant o'r Wladfa i'r famwlad - yn ôl yma i Gymru? Hoffwn wybod a oes tystiolaeth o ladrad o fanciau yn yr ardal hon ar dro'r ganrif. Enw arall ar y criw hwn oedd 'The Hole in the Wall Gang'. A yw hyn yn rhoi arwyddocâd arbennig i Dwl Clawdd yn ardal Llanrug?

Y mae cyfansoddiad y llun yn hynod o debyg i batrwm ffotograffwyr lleol y cyfnod - sylwch mor debyg yw i nifer o ddarluniau dosbarthiadau Ysgol Sul a dynnwyd bryd hyn yn yr ardal.

Yn sicr mae yma faes ymchwil eang na chloddwyd iddo o gwbl eto. Byddwn yn ddiolchgar iawn am unrhyw wybodaeth bellach sydd ym meddiant unrhyw un o'ch darllenwyr.

Yn gywir iawn,
D. Brown

Alfra,
Bethel Road,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,
(Ynglŷn â'r llun 'Pwy... Pryd... Ble?')

'Rwyf bron yn siŵr fy mod wedi gweld y llun yma o'r blaen! Coeliwch neu beidio - ond yn y llun hwnnw Butch Cassidy oedd y gŵr yn eistedd ar y dde! Ie wir!

Cofion,
Mary Rees Williams.

Annwyl Syr,

Pwy... Pryd... Ble:
Pwy - Y Wild Bunch - Butch Cassidy a'r Sundance Kid.
Pryd - Tua 1880.
Ble - America
Yr eiddoch yn gywir,
Carys Hughes (Mrs.)

Tan y Bryn,
Cwm-y-glo.

Annwyl Olygydd,

Gyda syndod braidd y gwelais ddarlun y pum dyn ar glawr yr Eco diwethaf (rhif 46). Er tebyced i ddosbarth Ysgol Sul yr edrychent, mae'n amheus iawn a ddilynwyd ffordd yr Arglwydd gan yr un ohonynt.

Pur anaml y gwelwyd hwy fel hyn, ac fe dynnwyd y llun o gwmpas 1885. Nid yw'r criw yma yn enedigol o'r fro hort (mae'n dda gen i ddweud). Yng Ngogledd America enillasant eu henwogwydd, fel aelodau 'The Wyoming Wild Bunch' - ysbeilwyr banciau a threnau. Mae'n debyg fod rhai o'r enwau yn adnabyddus i lawer.

O'r chwith i'r dde: Harry Longbaugh (The Sundance Kid), Bill Carver, Ben Kilpatrick (The Tall Texan), Harvey Logan (Kid Curry), Robert Leroy Parker (Butch Cassidy).

Yr eiddoch yn gywir,
John Richard Chick.

Diolch i Mr Elwyn Parry, Deiniolen a Mr Hefin Jones, Llanrug am godi'r ffôn.

Diolch hefyd i Eric Hughes, 7 Maes Gwynedd, Caernarfon am ei ddiddordeb ac am y pwt bach diddorol a ganlyn: Dywedodd mai dipyn o jôc oedd ynghlwm wrth y llun gwreiddiol. Mae'n debyg fod y giang wedi dwyn dros 30,000 o ddoleri o fanc yn Nevada. I ddathlu'r achlysur cawsant dynnu'r llun ac yna fe'u hanfonasant, fel gwerthfawrogiad o'r 'gwasanaeth' a gawsant, i'r banc!

Mewn ateb i'r llun 'Pwy, Pryd, Ble?' enwau'r pump dyn yw: (sefyll) William Carver a Harvey Hogan (Kid Curry). Yn eistedd: Harry Longbaugh (The Sundance Kid), Ben Kilpatrick a Robert Leroy Parker (Butch Cassidy).

Tynnwyd y llun gan John Swartz yn Fort Worth, Texas, ond nid ydwyf yn siŵr pa bryd ond 'rydwyf yn amau ei bod ar droad y ganrif.

E. Jones
Y Fricsan
Cwm-y-glo.

PENISARWAUN

PRIODAS - Llongyfarchiadau i Miss Elizabeth Ann Griffith, Groeslon Isaf ar ei phriodas ar Sadwrn, Mawrth 22.

PEN-BLWYDD YN 89 OED - Dymuniadau da i Mrs Thomas, 14 Bryntirion ar ei phen-blwydd yn 89 oed ac ar yr un pryd yr ydym yn gobeithio y bydd hi'n well.

GWAELEDD - Un arall sydd ddim wedi bod yn rhy dda ers tua phum wythnos yw Mrs Ethel Jones, 6 Bryntirion. Clywsom ei bod yn well erbyn hyn.

CLWB YR HEULWEN - Bydd Clwb yr eulwen yn cyfarfod yn fisol ar y 3ydd dydd Mawrth o yn ymlaen. Cafwyd cyfarfod i drefnu rhaglen - Mrs Pat Jones a Miss Laura Jones, Craig y Ddinas a roddodd y te.

EGLWYS SANTES HELEN - Cafwyd cyfarfod blynyddol o Undeb y Mamau, nos Lun, Mawrth 3. Darllenwyd y fantolen ariannol gan y trysorydd, Mrs O.C. Roberts, a'r rhaglen gan yr ysgrifennydd, Mrs M. Davies. Ail-etholwyd y ddwy chwaer i'w swyddi presennol.

Dymunwyd yn dda i Mr W.A. Rowlands, Bryn Hywel, sydd wedi bod yn yr ysbyty.

Croesawyd Mrs N.M. Pritchard, Gwynfa, Bryn Hyfryd adref o Ysbyty Walton.

Llongyfarchwyd Miss Janice Williams ar ei phen-blwydd yn 18 oed ac ar ei dyweddïad â Mr Keith Pritchard, 3 Tai Madoc.

Trefniadau Gwasanaethau'r Pasg - Dydd Gwener y Groglith am 10.30 a.m. Antelomanion - Awr dawel o 2.00-3.00 p.m. **Dydd Sul y Pasg** Cymun yn Gymraeg 10.30 a.m. Cymun yn Saesneg 3.15 p.m. Gosber 5.00 p.m. fel arfer nos Fawrth, Ebrill 8ed am 7.00 p.m. Cynhelir Festri'r Pasg o dan gadeiryddiaeth y Parch. Ganon Alun Jones, B.A., Llanberis.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yn eu cyfarfod diwethaf mynegodd yr aelodau eu bod yn falch iawn bod Mrs Pat Jones yn gwella. Hefyd bod Mr Len Williams, mab Mrs Katie Williams, 8 Llys y Gwynt wedi dychwelyd o'r ysbyty.

Llongyfarchwyd Mrs Gwennie Lewis ar ei phen-blwydd, a Mrs Percy Williams ar ennill cystadleuaeth y llinell goll yn Eisteddfod Bethel.

Daeth Mrs Mary Pritchard i'r cyfarfod i adrodd ei hanes yn cael diwnod ar safle 'Coronation Street' gyda'r actorion ac yr oedd pawb wrth eu bodd yn cael hanes eu hoff actorion o'r rhaglen. Diolchodd Mrs Porter yn gynnes iawn i Mrs Pritchard am ei chyfraniad i'r noson. Penodwyd Mrs Eluned Jones, Cae Corniog i fynd i'r Albert Hall, Llundain i gynrychioli Canghennau Penisarwaun a Deiniolen yng Nghyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched. Penderfynwyd hefyd cyfrannu at anrheg i Mrs Ellen Owen, Llanfaglan fel Ysgrifennyddes y Sir ym mis Mai.

Y mae dosbarthiadau gwnïo dan ofalaeth Mrs Richards, y Groeslon wedi dechrau. Fe'u cynhelir yn wythnosol a bu'r cyntaf ar Fawrth 23.

Darparwyd y lluniaeth gan Mrs Betty Hughes a Mrs Nancy Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs M. Williams, Carrog a diolchwyd i bawb am noson hyfryd iawn gan Mrs Eluned Jones.

Y Bysiau yn Cludo Chwarelwyr yn 1929

Diolch i Mrs Katie Williams, Lly-y-gwynt

Er mwyn i chwi wybod y Cymry ar daen.

Prif dref Llanddeiniolen yw Penisarwaun

A'i phobol yn rhif rhai miloedd ysydd A'i thwrw a'i masnach yn fwy na Chaerdydd.

Mae yna rhai cannoedd o siopau a thai Hotels a phlasau sy'n llawn ym mis Mai

O Saeson a Sgotiaid a Gwyddyl a Ffrens

A llawer o Ledis heb fymryn o sens.

O'r holl adeiladau rhaid dweud mai Siop Gron

Yw'r fangre brysuraf a welwyd o'r bron

Cans yna moduron sy'n gadael am saith

Gan gludo'r chwarelwyr i fyny i'r gwa th.

O'r helynt a'r bloeddio a chanu'r corn chwyth

A llawer hen dderyn heb droi yn ei nyth

'Lle mae'r breuddwydwy'r,' medd dreifar Jack Huws

"Dyw gweiddi yn ninas y meirw ddim iws."

Yn awr fe ddaw fflamau a mwg o'r holl gyrn

A sw'n y meginau yn chwythu yn chwynn

Pob tecell a phadell yn canu trwy'r lle

A'r ier a'r ceiliogod yn bloeddio 'Hwre'.

John Evans, Conductor edrychai yn syn

Wrth weled a chlywed rhialtwch fel hyn

"Hei up" meddai'r dreifar, "rwy'n myned yn awr

I guro Bob Gruffydd i fyny neu lawr."

Ar fengoch mi awn ni ryw fore mewn pryd

A'u gadael fel mynwent i gysgu i gyd Ple mae Thomas Hughes gyda Dafydd y Go

Caed pwysau cloc Deiniol o nyth y Jac Do.

Daw Deiniol gan redeg a sychu ei chwyys

John Daniel yn gweiddi "Ca fotwm dy gry's"

Ond pan gafodd Deiniol ei wynt medda fo

"Ond pwysau fy nghloc sydd yn nyth y Jac Do."

PRIODAS AUR - Tra mae Janice a Keith yn dyweddïo, ar y pegwn arall dathlodd Mr a Mrs W. Jones, 13 Bryntirion eu priodas aur ar Ebrill 26 eleni. Llongyfarchiadau iddynt.

GWAELEDD - A gawn ni hefyd ddymuno gwellhad buan i Mr W. Jones, 13 Bryntirion. Bu yn Ysbyty Eryri am driniaeth llawfeddygol am gyfnod. Yr ydym ar ddeall ei fod yn well erbyn hyn.

Clywsom fod Mr William Arthur Rowlands, yn Ysbyty Bryn Seiont. Dymunwn yn dda iddo. Brysiwch wella Mr Rowlands.

Bu Mrs Williams, Gwyddfor yn Ysbyty Gobowen am gyfnod ond erbyn hyn mae hi'n well ac yn aros efo'i merch yng Ngharrog. Ein dymuniadau gorau i chi Mrs. Williams.

Yr oedd yn dda gennym glywed bod Mrs Katie Williams, Llys y Gwynt yn gwella. Daliwch i wella Mrs. Williams.

GWELLHAD BUAN - i Mrs M. Owen, Cae Corniog a Miss G. Griffith, Commercial ar ôl bod yn wael eu hiechyd. Gobeithiohefyd bod Mrs K. Jones, Rhoswian yn well erbyn hyn.

CYDYMDEIMLWN - â Mrs Roberts, Vine Cottage ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith yn Neiniolen. Clywsom hefyd am farwolaeth Mr R. Turner (gynt o Swyddfa'r Post) yn Lloegr.

LLONGYFARCHIADAU - Mae Mrs G. Lewis, Llys y Gwynt yn hen nain am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau iddi.

WEDI YMDDEOL - Ein dymuniadau gorau i Mr Goronwy Jones,

Caerffynnon sydd wedi ymddeol yn ddiweddar ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon yn ffatri Austin Taylor, Bethesda.

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD - Cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel Basra ynglŷn â Dydd Gweddï Byd-Eang y Chwiorydd. Arweinydd y cyfarfod oedd Mrs Mrs Eluned Jones, Cae Corniog a gwnaed yr anerchiad gan Miss Phyllis Ellis. Ymunodd amryw o chwiorydd y pentref yn y cyfarfod, sef Mrs M. Thomas, Bod Awen, Mrs Mary Davies, Mrs Betty Hughes, Mrs Katie Williams, Mrs Eluned Porter, Mrs Percy Williams, Mrs Jennie Jones, Mrs Eirlys Jones, Mrs Jennie Williams a Mrs Pat Larsen. Mrs Nansi Jones oedd yn cyfeilio. Ein diolchiadau i bawb a gymerodd ran.

EISTEDDFOD - Y mae llond gwlad o gystadleuthau yn rhaglen testunau Eisteddfod Bentref Penisarwaun - ac ymhlith y llawryfon y mae cwpan a thlws. Cynigir y cwpan i ymgeisydd buddugol cystadleuaeth parti canu unrhyw emyn i rai dan naw oed a'r tlysau i fuddugwyr parti

cystadleuaeth cydadrodd oed ysgol gyntadd a'r tlws arall am y cynnyrch gorau o blith holl ymgeision yr adran farddoniaeth a rhyddiaith. Cynhelir yr eisteddfod yng Nghapel Glasgoed am hanner awr wedi pump nos Wener, Ebrill 24 ac y mae'r cystadleuthau i rai hyd at 12 oed yn agored i bawb sy'n byw yn nalgylch ysgol Tan-y-coed a'r cystadleuthau eraill yn agored i bawb sy'n byw ym mro'r papur hwn. Y mae'r rhestr testunau ar gael oddi wrth yr

ysgrifennydd, Tegid Roberts, Arwel, Llanrug am 10 ceiniog neu 20 ceiniog drwy'r post. Y beirniaid yw: Cerdd - Mrs Einir Wyn Williams; Llên ac Adrodd - Y Parch Gareth Maelor; Arlunio - Evie Roberts; Gwaith Llaw a Choginio - Mrs Carys Evans; y cyfeilydd yw Miss Annette Roberts, Dinorwig, a'r arweinyddion Miss Phyllis Ellis a Len Jones. Un o hogiau'r ardal, sy'n awr yn byw ym Methesda, yw'r llywydd, Alun Glyn Jones. Gwnaed apêl arbennig gan gadeirydd y pwyllgor, Mr Leslie Jones, Meillionydd am i unigolion mewn gwahanol rannau o'r pentref sefydlu partion er mwyn sicrhau bod cystadlu da ar y cystadleuthau i bartion canu ac adrodd.

CODIARIAN - Codwyd dros £60 tuag at Eisteddfod y Pentref mewn noson Cawl a Chân, Mawrth 10. Yr oedd £14 o'r arian yn rhoddion a dderbyniwyd ar y noson gan wahanol bentrefwyr. Canodd Edward nifer o ganeuon a achosodd gryn riantwch ymhlith y plant a'r oedolion fel ei gilydd. Bydd yr eisteddfod yng Nghapel Glasgoed ebrill 25 ac y mae un newid bach ymhlith y beirniaid. Oherwydd gwaeledd y Parch Gareth Maelor y beirniad adrodd a llên fy Mr Hywel Parry, prifathro ysgol y Groeslon.

MARW - Drwg gennym glywed am farwolaeth Mr Llew Jones, Llys y Gwynt. Cydymdeimlir yn ddwys â'i weddw a'r teulu i gyd. Drwg gennym glywed hefyd am farwolaeth mam Mrs Norma Green. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Y PLANT YN DATHLU GWŶYL DDEWI



YR YSGOL GYNRADD - Glanllyn - Treuliodd pump o'r plant ddeuddydd yng Ngwersyll Glanllyn dros Wyl Ddewi. Cawsant gwmni plant o rai o adrannau Urdd eraill y fro tra buont yno, a bu'r tywydd yn bur garedig hefyd.

Cyngerdd - Cynhaliwyd Cyngerdd i ddathlu Gwŷyl ein Nawddsant yn yr ysgol, bnawn Gwener, Mawrth 7ed. Cyfrannodd pob plentyn at ddiddanwch y rheini trwy gân, adroddiad neu ddawns.

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



BETHEL

YR YSGOL - Nos Fawrth diwethaf yng Nghapel y Cysegr cafwyd gwasanaeth i ddathtu gwyl y Pasg gan blant dosbarthiadau uchaf yr ysgol. Cafwyd cefnogaeth dda ac 'roedd pawb yn teimlo fod y plant wedi gwneud gwaith graenus.

Yn yr ymgyrch gwerthu llyfrau Cymraeg derbyniodd y plant archebion am 415 o lyfrau. Mae'r ymgyrch yn mynd o nerth i nerth bob blwyddyn a'r plant yn mwynhau mynd o dŷ i dŷ i werthu llyfrau.

DIOLCH - Dymuna Mrs Myra Griffith, Crud yr Awen ddiolch i'w chyfeillion, cymdogion, perthnasau a'i chyd-weithwyr am yr anrhegion a chardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Dewi Sant, ac am bob caredigrwydd ar ôl iddi ddod adre. Diolch yn fawr.

TÎM SNWCER YMCA - Mae tîm snwcer 'glas' YMCA Bethel wedi ennill eu ffordd trwodd i rownd derfynol cwpan Cynghair 'B' Bangor a'r Cylch. Dyma'r tro cyntaf ers i'r tîm ymuno â'r Gynghair ym 1975 iddynt gyrraedd y rownd derfynol. Ar eu ffordd trwodd buont yn fuddugol yn erbyn timau o Fethesda (Coch), Llanfairpwll (Du) a Phorthaethwy (Glas) a byddant yn wynebu tîm o Glwb Ceidwadol Caernarfon (Glas) yn y gêm derfynol sydd i gael ei chwarae yng Nghlwb Pêl-droed Dyffryn Nantlle ym Mhen-y-groes nos Iau, Mawrth 28. Pob lwc i'r hogia'.

YR URDD - Mae tymor yr Urdd bellach wedi dod i ben. Bu'r tymor eleni yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus ers sefydlu'r gangen gyda gweithgareddau amrywiol wedi eu trefnu ar gyfer pob wythnos. I orffen y tymor cafwyd Noson Goffi

lwyddiannus dros ben.

Daeth y parti Cerdd Dant a hyfforddwyd gan Ann Hopcyn yn drydydd yn Eisteddfod y Sir ddydd Sadwrn. Roedd hwn yn ganlyniad da iawn o ystyried fod y plant mor ifanc a heb lawer o gefndir Cerdd Dant ganddynt. Dylem ddisgwyl pethau mawr ganddynt yn y dyfodol.

Dymunwn y gorau i'r aelodau fydd yn mynd ar eu gwyliau i Langrannog yn ystod yr haf.

CLWB Y RHOS - Nos Sadwrn, Mawrth 8 bu'r Clwb yng Nghastell Cidwm, Betws Garmon yn cael eu cinio Gŵyl Ddewi. Y gŵr gwadd oedd Mr Ceredig Davies a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ar hanes lleol.

Nos Lun, Mawrth 20 roedd y noson yng ngofal Mr Richard Lloyd Jones a chafwyd noson ddiddorol ganddo yn adrodd rhai o'i brofiadau pan yn chwarae pêl-droed a chriced.

Y swyddogion newydd a etholwyd ar gyfer y tymor nesaf yw: Llywydd - Mr Ronnie Hughes, Seion. Is-lywydd - Mr John E. Jones, Trysorydd - Mr Dafydd Williams, Ysgrifennydd - Mr J.E Thomas.

BEDYDDIO - Dydd Sul, Mawrth 9 yng Nghapel Cysegr bedyddiwyd Dewi Gwyn, mab Mr a Mrs J. Elwyn Williams, Stad Eryri. Gweinyddwyd y Sacrament gan y gweinidog, Mr W.R. Williams.

GENI - Nos Wener, Mawrth 21 ganwyd mab i Mr a Mrs Geraint Elis, Sycharth, brawd i Angharad, Manon a Gwenan.

Y CARNIFAL - Nos Fercher, Ebrill 2il. Cynhelir Disgo yn y Neuadd. Yn y Disgo bydd brenhines y Carnifal am eleni yn cael ei dewis.

CIOSG HEB OLAU

Mae'r ciosg ger Groeslon Ynys Iago, Penisarwaun wedi bod yn ddiolau ers rhai blynnyddoedd bellach. Gan fod y groeslon ei hun heb ei goleuo gellir yn hawdd ystyried yr anhawster i bobl fyddai'n gorfod defnyddio'r ffôn yn ystod nosweithiau'r gaeaf.

Mae'r Cynghorydd Pat Larsen wedi cysylltu gyda Swyddfa Bost a bu'r Adran Gyfathrebu ar ôl MANWEB. Rhoddwyd addewid pendant gan y Bwrdd Trydan y byddai golau yno'n fuan. Ond dyma aeaf arall heibio a'r gwaith heb ei gyflawni.

Mae Mr Islwyn Williams, Ynys Iago hefyd wedi bod yn trafod y mater gyda'r Awdurdodau gan mai ganddo ef, y mae'r achos cryfaf i gwyno am y diffyg golau. Bu pobl ddieithr yn curo ar ei ddrws gefn nos i ofyn iddo am gael benthyg golau o ryw fath i'w galluogi i ddefnyddio'r ciosg.

Dewch ymlaen chwi awdurdodau, rhowch olau ar y mater, da chwi!

FACHWEN

Dydd Sadwrn, Ebrill 5ed bydd Mrs Maggie Foulkes, Garnedd Wen, Fach Wen yn dathlu ei phen-blwydd yn naw deg oed.

Ganed hi yn Nhŷ Newydd, Penisarwaun yn y flwyddyn 1890. Pan oedd yn hanner blwydd oed symudodd y teulu i fyw i dyddyn bychan yn y Waen Isaf, Penisarwaun. Yr oedd llun y tŷ yn rhifyn Chwefror o'r Eco. Drws nesaf i'r tŷ mae Tai Gwynedd wedi ei adnewyddu. Aeth i ysgol Tan-y-coed a chael ei haddysg trwy gyfrwng y Saesneg a dysgu darllen Cymraeg yn yr Ysgol Sul yng nghapel y Wesleaid y Waun, Penisarwaun. Er mai Cymraeg mae wedi siarad mae'n well ganddi ysgrifennu llythyrau yn Saesneg hyd heddiw.

Yr oedd deuddeg o blant yn y cartref. Yr hynaf oedd y diweddar Barch Griffith J. Owen. Y mae pedair o'r genethod yn fyw \$ Maggie (90), Miriam (Mair) (86), Betty (85) a Mary yn ei saithdegau.

Gadawodd Mrs Foulkes yr ysgol yn dair ar ddeg oed a mynd yn forwyn fach i'r llythyrdy ym Mhenisarwaun. Wedyn bu yn gweini ym Mae Colwyn, y Rhyl, Manceinion a Phorthaethwy cyn priodi a dod i fyw i'r Fach Wen yn 1926.

Bu ei gŵr, Mr William Rees Foulkes farw ddeng mlynedd yn ôl. Mae ganddi un ferch, Mair, sydd yn athrawes yn Ysgol Iau Maesincla Caernarfon.

Yn y gaeaf bydd Mrs Foulkes yn treulio llawer o'i hamser yn gwyllo'r teledu ac yn darllen - mae yn edrych ymlaen at y gwanwyn i gael mynd allan. Mae'n aelod selog o Eglwys St. Mair Dinorwig, ac yno bron bob nos Sul yn yr haf. Mae hefyd yn cael pleser mawr o fod yn aelod o Glwb yr Henoed Brynrefail.

Yn rhyfedd mae llawer o'i ffrindiau plentyndod hi yn fyw - tybed a oes wnelo iddynt pan yn blant yfed llawer o ddŵr o Ffynnon Gegin Arthur (byddai llawer iawn o ymwelwyr yn y cyfnod hwnnw yn dod i'r Ffynnon i yfed y dŵr iachusol). Byddigions y galwai y plant hwy a byddai ambell i geiniog i'w gael am ddangos y ffordd i'r Ffynnon. Neu efallai y berw dŵr fyddant yn ei gael o afon 'Catrin Jones' sydd yn gyfrifol neu y 'Llygad yr Aeron' fyddent yn eu hel yn 'Gors yr Hendre'.

Tybed beth yw'r ateb?

DYDDIADAU I'W COFIO

GORFFENNAF
12-19: Wythnos Garnifal Llanberis.
12: Padarn Roc
19: Carnifal Llanberis.

GWASANAETHU YN RHODESIA



Dyma P.C. Brian Evans o Langefti a ddewiswyd yn un o chwech o blith 288 o wirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru i wasanaethu yn Rhodesia yn ddiweddar.

'Roedd P.C. Evans yn un o'r tîm o 500 o blismyn o wledydd Prydain a anfonwyd i Rhodesia i oruchwylio'r etholiadau yno ddechrau'r mis diwethaf.

Mae P.C. Evans, sy'n briod gyda dau o blant, yn fab i Mr a Mrs William E. Evans Fferm Penybwlch, Clegir.

Deallwn fod Mr W.E. Evans, Penybwlch ar hyn o bryd yn Ysbyty Môn ac Arfon. Ein dymuniadau gorau iddo am adferiad llwyr.

DERBYNIADAU

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r Eco:

£2.00: Mr R.J. Thomas, 2 Bron Helen, C12t y Bont.

£1.00 Rhyw Gofi

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

YSGOL BRYNREFAIL NOS IAU, EBRILL 24

am 7 o'r gloch

NOSON O DDRAMÂU

gan ddisgyblion yr ysgol

Mynediad 40c. Plant a
Phensiynwyr 25c.

Ticedi ar werth gan blant yr ysgol.

WAUNFAWR



YR AELWYD – Cynhaliwyd Ffug Eisteddfod yn ddiweddar rhwng Aelwyd y Waunfawr ac Aelwyd Pen-y-groes, gydag Aelwyd y Waunfawr yn ennill y darian ar

ddiwedd yr ornest. Dyma luniau rhai o gystadleuwyr brwd y Waunfawr.

Lluniau – Cystadleuaeth sgets a chystadleuaeth offerynnau!

GWERTHFAWROGIAD – Derbyniodd Mr a Mrs Walters y Llythyrdy'i penillion canlynol ar achlysur genedigaeth eu mab, Mark.

Diolch ichwi berthynasau
A'r llu ffrindiau yma a thraw –
Am eich dymuniadau cynnes,
A phob rhodd, rhaid gwasgu llaw.

Ac i'r meddygon a'r ysbyty –
Diolch am bob gofal nawn –
Wedi cyfnod o bryderu
Torrodd bore hyfryd iawn.

Do i aelwyd y Llythyrdy
Fe ddaeth baban bach di-nam,
Gan na fedr ysgrifennu
Diolch wna ei Dad a'i Fam.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Gwilym Hughes, Tref Eilian am fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Lowri, i John a Heulwen Hughes sy'n byw yng Nghaernarfon.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Gethin Williams, 5 Pant y Waun; Mr Hugh Elfed Roberts, Bryn Golau; Bethan Wyn, Y Frenni a Llinos Cadwaladr, Glyn Afon. Dymunir adferiad buan iddynt i gyd.

PROFEDIGAETH – Cydymdeimlir â Miss Margaret Roberts, Raridd Isaf a gollodd ei brawd yn ddiweddar.

YR URDD – Daeth parti chwythbrennau yr Urdd yn gyntaf yn Eisteddfod y Cylch, a'r parti penillion yn ail. Llongyfarchiadau i'r plant, a diolch i Ann Marston am ddysgu'r parti chwythbrennau a Marion Iwan am ddysgu'r parti penillion.

MERCHED Y WAWR – Ar Chwefror 28 cyfarfu'r gangen yn Neuadd yr Eglwys i ddathlu Gŵyl Ddewi. Croesawyd pawb gan y llywydd, Mrs M. Austin Jones. Yn ystod y noson bu Irene Roberts yn darllen straeon a

barddoniaeth, a chafwyd cyd-ganu gyda Mrs Gwyn Davies yn cyfeilio. Cafwyd cystadleuaeth darn heb ei atalnodi gan Olwen Williams gyda Mrs Gladys Lewis yn fuddugol. Enillydd y Llinell Goll, a feirniadwyd gan Mrs Greta Hughes, oedd Rhian Ellis. Beirniadwyd cystadleuaeth y mis sef llunio Cennin' Pedr allan o unrhyw ddeunydd gan Beryl Jones, gyda Mrs Glenys Williams, Betws Garmom yn ennill. Gwnaethpwyd cawl hynod o flasus gan Carys Owen a Luned Roberts, ac enillwyd y raffl a roddwyd gan Carys Owen gan Luned Roberts. Diolchwyd i bawb am noson ddifyr gan Mrs Miles.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Mawrth 27 am 7.30 pryd y ceir Ysgol Pendalar ar Ffilm gan Mrs Catherine Jones.

CLWB GWYRFAI – Pnawn lau, Chwefror 27 cyfarfu aelodau'r Clwb yn Neuadd yr Eglwys. Yn absenoldeb y llywydd, y Parch Trefor Jones (Ficer) cymerwyd y gadair gan Mrs L. Idris Jones.

Cafwyd hanes diddorol iawn am bentre Waunfawr a'r cylch yn nechrau'r ganrif gan Mrs Morgan Jones (Pant) a Mrs J. Awstin Jones.

Diolchwyd i'r ddwy yn gynnes iawn gan Mrs L. Idris Jones a Mr T.H. Williams.

Dymunodd aelodau'r Clwb yn dda i amryw oedd yn absennol drwy afiechyd, hefyd llongyfarch Mrs Williams, Brynhyfryd ar ei phen-blwydd yn naw deg oed yn ddiweddar. Darllenodd Mr T.H. Williams benillion 'roedd wedi eu hanfon ar gerdyn i Mrs Williams.

Rhodd Miss Oweilda Williams oedd y raffl a enillwyd gan Mrs W. Griffith, Bronallt.

YR YSGOL FEITHRIN – Treuliwyd

noson lwyddiannus iawn yng Ngwesty Clynnog ar Sadwrn, Mawrth 1af, pryd 'roedd yr Ysgol Feithrin yn dathlu Gŵyl Ddewi. Daeth llawer o'u ffrindiau ffyddlon ynghyd am swper o gyw iâr neu sgampi a sgloodion.

Enillwyr y raffl oedd: 1. Bocs nwyddau – Stephen, 6 Glanrafon, Bontnewydd, 2. Coes Oen – J.H. Jones, 4 Rhosbodrual, Caernarfon. 3. Dol 'Sindy' – Mrs Madge Phillips, c oShinfield, Waunfawr. 4. Tocyn Record £3 – Neil Jones, Glyn Ceiriog, Pen-y-groes. 5. Cyw iâr – Lowri Ann Parry, Bronallt, Groeslon. 6. Tocyn Llyfr £2 – Mrs Olwen Williams, Llidiart Wen, Waunfawr. 7. Bocs Bisgedi – G. Morgan, Cae Hen, Rhosgadfan. 8. Potel Sieri – Miss Karen Denton, Ynysoedd, Waunfawr. 9. Potel o Win – Neil Jones, Glyn Ceiriog, Pen-y-groes. 10. Bocs Siocled – G. Morgan, Cae Hen, Rhosgadfan.

Carai aelodau'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb sydd wedi eu cefnogi ar yr achlysur hwn. Gwnaethpwyd elw sylweddol tuag at gronfa'r Ysgol Feithrin.

BRENNINES Y CARNIFAL – Byddwn yn dewis Brenhines y Carnifal yn ystod Noson Goffi Merched y Wawr, nos lau, Ebrill 24 yn Neuadd yr Eglwys am 6.30.



Dyma lun Miss Katie Roberts, 27 Tref Eilian a wisgodd ei gwisg draddodiadol yn arbennig gogyfer â'r noson.

CYMDEITHAS Y BONT – Cymdeithas newydd yw Cymdeithas y Bont, yr ail o'i bath drwy Gymru gyfan. Daw yr aelodau sef dynion yn unig o'r Bontnewydd, Caeathro a'r Waunfawr, ac maent yn cyfarfod yng Nghaeathro ar y trydydd dydd Mawrth o bob mis.

Hyd yma mae'r rhaglen ar eu cyfer wedi bod yn un amrywiol a diddorol dros ben. Ond yn siŵr i chwi anodd iawn fydd cyrraedd safon yr adloniant a gafwyd yn eu cinio Gŵyl

Ddewi ym Mhlas Tan Dinas, Dinas Dinlle ar Fawrth 7ed. Llywydd y noson oedd Norman Williams, ar ei orau, yn cyflwyno'r gŵr gwadd sef Hywel Gwynfryn, ac fe wyddoch i gyd am ei ddawn arbennig o, rhoddwyd y diolchiadau gan ŵr dawnus arall sef R. Gwynn Davies.

Ar Ebrill 15 cawn dipyn o hanes Dafydd Iwan yn America, a bydd hon eto yn noson ddifyr iawn 'rwy'n siŵr.

ER COF AM
BRENDA WYN WILLIAMS
RHYD DDU

Ton o dristwch ddaeth yn sydyn
Dros hen bentref bach Rhyd Ddu
Galwyd Brenda at ei gwobr
Ac fe rwygwyd aelwyd gu.

Mam a phriod hoff ac annwyl
O mor sydyn daeth yr awr
Mynd heb roddi gair o ffarwel
Fry i fynwes lesu Mawr.

Gwag yw'r aelwyd heb ei chwmni
Dim ond atgof sydd yn awr
Colli priod sydd yn ergyd
Colli mam sy'n golled fawr


Rhyfedd ydyw trefn rhagluniaeth
Datrys hon mor anawdd yw
Ond fe gofiwn yr addewid
Mai 'nghlwyfau'r Oen y cawn ni
fyw

Duw a'i rhoddodd Ef a'i dygodd
Ato'i hun i'w dyner gôl
Ninnau sydd yn dwys fyfyrrio
Mewn dwfn hiraeth ar ei hôl.

E. Jones, Tŷ Capel
Rhyd Ddu.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

MODURDY
MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

BRYNREFAIL



PRIODAS— Dydd Sadwrn, Chwefror 2 gweinyddwyd priodas Mr Eifion Evans, mab Mrs E. Evans a'r diweddar Mr John Evans, Pant y Buarth, Brynrefail, a Gwyneth Jones, unig ferch Mrs Mair Jones a'r diweddar Mr John Jones, 17 Glan Moelyn, Llanrug. Gwasanaethwyd gan y rheithor, D.G. Williams, gyda Miss Nellie Owen wrth yr organ. Brawd y priodfab, Glyn Evans, oedd y gwas a Karen Wyn Owen o Rosgadfan oedd y forwyn.

Mae Eifion a Gwyneth yn cartrefu yn 17 Glan Moelyn, a dymunwn bob bendith iddynt. Hoffent ddatgan eu diolch i'r teulu oll a chymdogion a chydweithwyr Gwyneth o Ffatri'r Glyn, Llanberis am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

GENEDIGAETH — Llongyfarchion cynnes i Gwenllian a John Edwards, 20 Stad Tal-y-bont, Llanrug ar enedigaeth eu merch, Cheryl Elizabeth, ar Fawrth 9. Roedd Cheryl yn pwyso 7 bwys pan anwyd hi a da yw deall fod y fam a'r ferch fach yn dod yn eu blaenau'n iawn.

CLWB REFAIL — Daeth nifer dda o aelodau ynghyd yn Nhŷ Glas ar

Fawrth 4 i ddatlu Gŵyl Dewi Sant. Cafwyd swper wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor ac fe ddangoswyd ffilmiau o'r swper Nadolig yng Nghaernarfon a golygfeydd o Ynys Malta gan Mr Wellsby.

CLWB Y MAMAU — Yng nghyfarfod mis Mawrth yn Nhŷ Glas cafwyd gornest ar sail y rhaglen deledu 'Tri gair bach' a drefnwyd gan Moira Ellis. Rhoddwyd y te gan Elizabeth Thomas a Sheila Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Rhian Jones ac fe'i henillwyd gan Audrey Roberts.

TOMBOLA — Dan nawdd cangen leol 'Action Research' mae gornest Tombola wedi ei threfnu yn Nhŷ Glas ar gyfer nos Wener, Ebrill 11 am 7 o'r gloch. Bydd croeso cynnes i oedolion a phlant.

URDD GOBAITH CYMRU—Ar Fawrth 11 cafwyd noson goffi ac arwerthiant ar gyfer cangen Cwm-y-glo a Brynrefail yn ysgol gynradd Cwm-y-glo. Gwnaed elw o £146 at yr achos ac yr oedd Helen Roberts ac Elizabeth Thomas ymysg y rhai a fu'n lwcus yn y raffl. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar dros ben i'r oedolion a phlant am eu cefnogaeth.

CLWB PEDWAR UGAIN — Bu nifer o aelodau a chyfeillion y clwb yn datlu Gŵyl Dewi Sant mewn swper a Disco ym Mhlas Gwyn, Pentrefelion ar Fawrth 1. Mae taith ddiregel eisoes wedi'i threfnu ar gyfer Ebrill 26 — ceir manylion pellach gan y casglwyr.

Enillwyr mis Chwefror: Chwef. 1: (1) Bobby Roberts (2) Sylvia Williams (3) Margaret Jones. Chwef 8: (1) Rhona Jones (2) Geraint Roberts (3) Garry Jones. Chwef 15: (1) Glennys Jones (2) Norma Green (3) Helen Roberts. Chwef 22: (1) Glyn Owen (2) O.J. Williams (3) Betty Owen (Llwyncoed Bach). Chwef 29: (1) Jenny Hughes (2) Ann Jones (3) Sue Jones.

DYMUNIADAU DA — i Mrs Gladys Jones, Hafan, sydd bellach wedi symud o Frynrefail dros dro at ei merch yn sir Fôn. Ond yn y dyfodol agos bydd yn cartrefu yn ei chartref newydd yn Llanrug. Pob bendith iddi.



Dyma ddau lun o eiddo Miss Blodwen Owen, 2 Orwig Terrace, Brynrefail.

Yn gyntaf, llun a dynnwyd o'r Ysgol Fach, Brynrefail oddeutu 1910. Yn anffodus, mae amryw o'r criw bach wedi'n gadael erbyn hyn. Fe gofia Miss Owen mai Miss Griffiths oedd yr athrawes ar y chwith yn y rhes gefn, ond nid yw'n siŵr pwy oedd y foneddiges ar y dde.

Ymysg y plant yn y rhes ôl fe welir wrth ochr yr athrawes: Jinnie Owen (Mrs Elfed Roberts, Ffrwd Goch — hawdd gweld y tebygrwydd amlwg i'w merch Lowri). Wedyn yn y rhes ôl cofia Miss Owen Richie Parry, Gwilym Ellis, un o hogia' Penrallt, Meira Foulkes (Penllyn), Margaret Williams (Mrs Closs Parry, Bryniol yn awr) a Nel Foulkes (Penllyn).

Yn yr ail res o'r cefn ceir Teddie Mathews, John Foulkes (Penllyn), yr enwog ddiweddar Dilys Cadwaladr a'r enwocaf oll, sef Gruffydd Pritchard.

Yn y drydedd res o'r cefn mae Morfudd Lewis, wedyn Blodwen Owen (perchennog y llun), Jinnie Williams (Mrs Roberts, Creigle, sydd yn awr yn byw yng Nghaernarfon), Maggie Williams (Glan Gors), Annie Williams (Glan Gors), Olwen Roberts (Mrs Hughes yn awr, yn byw yng Nghaernarfon), Ifan Owen a Maggie Jane Owen.

Yn y rhes flaen gwelir Meredith Foulkes, Tommy Owen, Cyril Davies, Harry Lewis, John Henry Parry, Meredith Ellis, Alun Ellis a Willie Ifor Williams.

Roedd Miss Blodwen Owen yn deirblwydd a hanner pan dynnwyd y llun a byddai o ddiddordeb mawr iddi glywed beth oedd hanes rhai o'r unigolion yn ystod y flwynyddoedd a aeth heibio.



Yn yr ail lun ceir parti cân actol Brynrefail a fu'n fuddugol mewn eisteddfod leol fis Mawrth 1920. Enwau os gwelwch yn dda!

NANT PERIS

BEDYDD— Prawn Sul Mawrth 16 yn Rehoboth bedyddiwyd Edward, ail fab Helen a Tony Adams ac ŵyr Mr a Mrs O.W. Humphreys, Gwastadnant. Gweinyddwyd gan y gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson.

GADAEL— Dymuniadau da i Mr a Mrs Edwards, Blaenant, ar eu hymadawiad i fynd i Ddyfnaint.

Buont yn byw yma am 16 o flynyddoedd.

EISTEDDFOD YR OFALAETH — Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn yn Llanberis nos Iau a Gwener, Mawrth 13 a 14. Fel arfer rhoddodd plant y Nant gyfri da ohonynt eu hunain gan ennill amryw o wobrwon.

LLE BODDODD DAFYDD DDU?

Cilcapan,
4 Stad Coetmor,
Bethesda.

Annwyl Syr,
A oes traddodiad yng ngwaelod

plwyf Llanddeiniolen ynglŷn â'r
union fan lle boddodd Dafydd Ddu
Eryri yn afon Cegin?

Yn gywir iawn,
Dafydd Orwig.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

D.E. & R.P. JONES



Y BECWS

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS
Dosberthir drwy'r fro
HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Soniwn wrth y plant yn Rhiwlas un prynhawn am Garadog Prichard, (mi fyddai'n darllen rhannau o 'Un Nos Ola' Leuad', iddynt yn aml), a chlywed ar y newyddion y noson honno fod y prifardd wedi marw. Chwith meddwl na chawn ein sgwrs flynyddol yn y brifwyl mwyach.

Rhyw wythnos yn ddiweddarach 'roeddwn yn trafod 'Cerdd yr Hen Chwarelwr', W.J. Gruffydd efo'r plant, a sôn am ddylanwad stad y Faenol ar y fro. Cyfeirio wrth gwrs at Syr Michael Duff, a chlywed y noson honno fod Barwn y Faenol hefyd wedi'n gadael.

Un o'r plant yn dweud wrthyf y bore dilynol - "Ma' pawb ydach chi'n sôn amdano yn marw Syr."

Penderfynais sôn am Columbus yr wythnos wedyn.

Syndod a siom i mi pan euthum i ddysgu i Fethesda ychydig flynyddoedd yn ôl oedd sylwi na wyddai'r plant fawr ddim am Garadog Prichard. Cefais yr un teimlad siomedig yn ddiweddarach pan sylweddolais cyn lleied a wyddai plant Llanberis am T. Rowland Hughes.

Mae'n bwysig i ni sôn wrth ein plant am feirdd a llenorion ac enwogion bro, ac mae dylanwad stad y Faenol yn rhan annatod o hanes yr hen ardaloedd 'ma hefyd gwaetha'r modd; a rhaid sôn wrth y plant am hyn hefyd.

Treuliais ddwy noson hapus yn 'Steddfod Eglwysi Llanberis. Llongyfarchiadau i chwi am eich gwaith blant, - bu'n eisteddfod lwyddiannus iawn. Oes yn sicr mae 'na dalentau disglair yn Llanbêr.

Diolch i gefnogwyr y 'Llannerch' am eu cerddi. Dyma gerdd gan y Parchedig Terry Thomas, Aberteifi (cyn weinidog Disgwyllfa, Deiniolen). Mae'n amlwg ei fod o'n cofio am y dyddiau fu.

Atgofion

Mae'r hen chwarel o hyd yno, hogia,
A gwag yw ei chaban a'i phonc;
Mae'r hen lwybrau o hyd yno, hogia,
Ond peidiodd y troedio a'i glonc.

Ni chlywir y ffrwydro o'r graig, hogia,
A mud yw ei daran a'i swm;
Fe ddrylliwyd yr hen gymdeithas,
hogia;

Fe'i taflwyd i'r cathod a'r cwn.

Pa le'r hen ddadlau a'r sgwrsio,
hogia?

Pa le mae caniadau'r hen griw?

Pa le'r hen gastiau chwaraewyd,
hogia?

Ai marw a wnaethant? Ai byw?

Ond er colli'r hen ffrindiau ffein,
hogia,

Fe'u gwelaf yn dyrfa ddi-ri;

A thystia'r hen domen o hyd, hogia,
I'r llafur a'r aberth a fu.

A dyma ddwy gerdd gan John V. Morris, Clwt-y-bont. Profiadau serch yw neges y gyntaf, a'r hen

ddyddiau a fu sy'n cynhyrfu ei awen yn yr ail. Diolch am eich cefnogaeth. Gair cyffredinol i rai sy'n anfon cerddi - cerddi byr os gwelwch yn dda, a daliwch i anfon.

Hapusrwydd Serch

Mae breuddwyd oedd unwaith yn ffôl,

O'r diwedd yn wir ac yn fyw;
A seiniau soniarus a geiriau,
Yn bêr ac yn iach ar fy nghlyw;
Peth hapus a rhyfedd yw cariad,
Ac anodd i'w ddallt ydyw serch,
Fy nghalon yn llamu a neidio,
Bob tro 'rwyf yn gweled y ferch.

Ei llygaid fel gwllith yn disgleirio,
Yn debyg i berlau y wawr;
A'r nos sydd yn hir heb ei chwmni,
Pob eiliad yn teimlo fel awr;
Ei gwallt fel yr heulwen yn olau,
A'i gwefus yn wridog fel rhos,
Ei chwerthin yn iach, a chellweirus,
A'i hosgo bob amser yn dlos.

Bydd bysedd yr awel ar brydiau,
Yn cyffwrdd yn swil yn y dail;
A minnau mewn cwmni merch brydferth,

Nad oes yn y byd un ei hail;
A'r lleuad a'r sêr sydd yn gwybod,
Fy mod yn ei charu mor hir,
A chefais fy ateb i'm cwestiwn,
Mae'r wawrddydd a ffawd yw y gwir.

Tra cyfyd y llanw ei donnau,
Yn erbyn gloglwyni y tir,
A'r afon o'r cwm yn sisialog,
A chwiban yr hedydd yn glir,
Ac felly y pery ein cariad,
Am oesoedd i ddyfod 'rwy'n siŵr,
Fel machlud yr haul yn yr heli
Neu safiad pont Borth dros y dŵr.

CYFRINACH Y GWYNT

Mae hiraeth yn yr awel,
Ac eco'r dyddiau gynt
A rhyw hen gyfeillgarwch,
Rhwyng brigau'r coed a'r gwynt;
A thrist yw'r murmur isel,
A'r sgwrs sy' rhwyng y ddau,
Fel drws ar fachau rhydlyd,
Yn agor ac yn cau.

Yr hesg ar lan yr afon,
Sy'n crio yn y gwynt,
Wrth gofio'r hen werinwyr,
A droediodd Wynedd gynt;
A'r bont sy'n gwylio'n ddistaw,
Drwy'r amser ym Mhen Llyn,
Ei golwg tua'r Wyddfa,
Dros ddyffryn glas y glyn.

Mae'r cawcwellt yntau'n gwybod,
Am gyfrinachau'r gwynt,
Am aberth yr 'hen gewri',
A loesau'r dyddiau gynt;
Am ebill y chwarelwr.
A'i gŷn yn hollti'r graig,
Yn troi y meini'n fara.
I fwydo'i blant a'i wraig.

Am oes yr hen dyddynnwr,
Ei ddysg, ei grefft a'i ddawn,
Yn trin yr erwau unig,
A huddo'r tân â mawn;
Hen fachgen gwâr y gweunydd,
A phladur dan ei fraich,
Eglwyswr, neu gapelwr
A'i ysgwydd dan y baich.

Am chwedlau'r hen faledwr,
Yn canu yn y ffair,
Yn gwerthu ei faledi,
Am geiniog, dwy, - neu dair;
Ond darfu'r hen amseroedd,
A'r oriau difyr gynt.
Gan adael yr hen erwau,
I swm y glaw a'r gwynt.

HYDER

Y mae gan y rhai hynny mewn cymdeithas na allant edrych ar ôl eu hunain fwy o angen cymorth mudiadau gwirfoddol heddiw nag ers blynyddoedd lawer.

Dyna'r neges glir mewn papur newydd a gyhoeddir gan Gymdeithas Caernarfon a'r Cylch Dros rai Araf eu Meddwl.

Bwriedir cyhoeddi Hyder sy'n bapur dwyieithog yn flynyddol a'i ddosbarthu am ddim yn ardal Caernarfon er mwyn tynnu sylw'r bobl at y gwaith a wneir eisoes gan y Gymdeithas ac hefyd at y gwahanol ffyrdd y gall y cyhoedd gynorthwyo'r Gymdeithas - nid yn unig gydag arian parod ond gyda help uniongyrchol. Pwysleisia'r Gymdeithas fod gwir angen cymorth o'r fath mewn dyddiau o gwtogi ar wariant cyhoeddus gan ddweud ei bod yn "Ddyddiau Dyrys" ar rai, fel yr araf eu meddwl o bob oed, nad yw'n bosib iddynt ofalu am eu hunain.

Dywed Cadeirydd y Gymdeithas, Mrs. Elinor Wigley, "Dyma'r bobl na allant frwydro drostynt eu hunain am eu hiaunderau a dyna pam y mae angen cymdeithas gref i ymladd trostyn i sicrhau y cânt chwarae teg."

Y mae Hyder yn galw am "Bobl, Syniadau ac Arian" i hybu ei gweithgarwch ac yn sôn am rai o'r pethau a wneir eisoes i wneud bywyd yn werth chweil i'r araf eu meddwl, - pethau megis Clwb Plant Ni, clwb cymdeithasol sy'n cyfarfod bob yn ail fore Sadwrn pryd y caiff plant araf gyfle i gyd-chwarae a chymdeithasu â phlant eraill. Daw gwirfoddolwyr o ysgolion Caernarfon i'r clwb i gynorthwyo.

Clwb newydd i oedolion araf eu meddwl yw 'Grŵp Ni' sy'n cyfarfod ar ddwy nos Lun o bob mis a darperir yno bob math o adloniant i oedolion araf eu meddwl. Eisoes fe'u diddanwyd gan Trydan, Y Co Bath, Mari Gwilym ac eraill.

Byddai croeso mawr am

unrhyw gymorth i redeg y clwb hwn. Y mae stori nodwedd arbennig am ganolfan hyfforddi oedolion araf eu meddwl yn Segontium, Caernarfon, ac fe synnir llawer o bobl gan y defnyddiau a wneir yno.

Bathwyd yr enw Hyder ar gyfer y papur gan Mrs Anne Parry Jones, Perthi, Bryngwyn, Llanrug mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y Gymdeithas yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon y llynedd.

Dywedwyd mai arbrawf fyddai'r rhifyn cyntaf hwn a thalwyd am ei gynhyrchu gan hysbysebion gan bobl busnes lleol. "Ac yr ydym yn eithriadol o ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom gan y bobl hyn. Cawsom ddigon o arian i gynhyrchu'r papur a'i ddosbarthu am ddim ac 'roedd ychydig wrth gefn hefyd i'w ddefnyddio i hybu gweithgareddau'r Gymdeithas. O bosib y bydd gennym, wedi ein profiad eleni, ryw beth mwy uchelgeisiol y flwyddyn nesaf," meddai llefarydd ar ran y Gymdeithas.

Bydd Hyder ar gael yn y cylch yn ystod yr wythnosau nesaf - byddwch ar eich gwyliadwriaeth.

'Foelas'
19 Stryd Newton
Llanberis

Annwyl Olygydd,
Canwn drwy gyfrwng eich papur ar ran Pwyllgor Carnifal Llanberis estyn gwahoddiad i Ddawnswyr Morus a Majorettes ardal Eco'r Wyddfa a thref Caernarfon i Garnifal Llanberis a gynhelir ddydd Sadwrn Gorffennaf 19.

Eleni am y tro cyntaf cynigiwn dlws i'r dawnswyr gorau; ni chynhelir cystadleuaeth ar y maes ond bydd y dawnswyr yn cael ei beirniadu ar yr orymdaith drwy'r pentref. Bydd Dawnswyr Llanberis a'r partion buddugol yn dawnsio yn y cylch ar y maes.

Carwn hefyd estyn gwahoddiad i Freninesau Carnifal bro yr Eco a Chaernarfon i'r Carnifal.

Os ydych am ddod a wnewch chi gysylltu â mi yn y cyfeiriad uchod cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yr eiddoch
Alwyn Thomas (Ysg.)

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



DINORWIG

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD - Mawrth 1980. Cynhaliwyd cyfarfod, bendithiol o'r uchod yn eglwys St. Mair, Dinorwig, ddydd Gwener, Mawrth 7, 1980. Yr arweinydd oedd Mrs Megan Morris, Minffordd. Yr organyddes oedd Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian. Traddodwyd araith fer gan Mrs Alice Griffith, Tanybwlich, a chanwyd y gân, 'Pwy oedd dy Gymydog', gan barti o'r chwiorydd.

Cymerwyd rhan hefyd gan Mrs Betty R. Roberts; Mrs Margaret Roberts, Mrs Katie L. Hughes o Maes Eilian. Mrs M.E. Hughes, Groeslon Uchaf; Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd; Mrs Medwen Griffiths, Foel Cottage; Mrs Elizabeth Jones, Foel Tiron; Mrs Katie Griffith, Arwelfa; Mrs Maggie Evans, Dublin House; Miss Lizzie Thomas, Lliidiart y Clo; Mrs Ida Thomas, Tŷ Capel Sardis a Mrs Dilys Williams Tŷ Capel Dinorwig. Y trefnydd oedd Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir. Gwnaed casgliad o £4 tuag at Gronfa gwaith y gymdeithas uchod.

CYMDEITHAS UNDEBOL

Nos Iau, Chwefror 28, yn y Ganolfan bu cyfarfod o'r gymdeithas dan lywyddiaeth Mr Hugh Thomas, Bro Elidir. Trefnwyd noson o Frethyn Cartref gan ddoniau lleol ac eraill. Cymerwyd rhan gan y canlynol mewn gwahanol eitemau. Misses Annette B. Roberts, Olwen B. Roberts, Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Miss Siân Gibson, Deiniolen; Alwyn Jones ac Eric W. Jones, Bro Eldiir; Mr Alun Griffith, Llangefni; Mr Evan B. Roberts, Tŷ'r Ysgol. Trefnwyd Cwis gan Miss E. Wynne Jones, Tŷ'n Fawnog; a chystadleuaeth darn heb ei atalnodi

gan Mrs Alice Griffith, Tanybwlich. Cafwyd noson ddiffr. Talwyd diolch gan Mr I.R. Williams, Bro Elidir. Dewiswyd pwyllgor at y tymor nesaf.

Nos Iau, Mawrth 13, yn y ganolfan bu cyfarfod olaf y tymor dan lywyddiaeth Mrs Betty L. Roberts, Maes Eilian. Cafwyd cyngerdd gan Barti Eryri. Diddorwyd yr aelodau gyda chaneuon, adrodd a sgestiau. Arweinydd y gweithrediadau oedd Mr Trefor Selway, Llanrwst. Llywydd gwadd oedd un o blant yr ardal, yn awr yn byw yng Nghaernarfon, y Cynghorydd Hefina Jones, Caernarfon. Cyflwynodd rôdd haelionus i gyllid y Gymdeithas. Talwyd diolch i'r parti gan Mrs Betty L. Roberts, Maes Eilian, a Mr Hugh Thomas, Bro Elidir.

YN YR YSBYTY - Ein cofion at Mrs Alun Phillips, 6 Maes Eilian, a Miss Nora Williams, Padarn Stores, Fachwen, sydd yn ysbty Dinbych. Brysiwch adref.

LLONGYFARCHIADAU - I Mr a Mrs G.W. Roberts, Ysgubor ar eni ei wŷr cyntaf, sef mab i Mr a Mrs Emrys Roberts, Talybont.

TOCYNNAU MANTAIS BWS - Gwnaed trefniant i ddosbarthu tocynnau Mantis Bws gogyfer ag ardal Dinorwig a'r Fachwen ar ddydd Mercher, Ebrill 9. Fe'u rhennir yn y Ganolfan o 3 i 4 pm. Codir tâl o £1.00 am bob tocyn teithio a ddosberthir. Ni fydd y cynllun yn dechrau tan Mai 1 1980.

DIOLCH - Dymuna Mr Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian, ddiolch i'r teulu, cymdogion, a chyfeillion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei waeledd. Diolch yn arbennig i Mr Thomas, Creigle.

SIBRYDION

3 DRAMA FER

Uchafbwynt y mis nesaf yn yr Ysgol fydd perfformiad o dair drama fer gan blant yr ysgol. Mae ymarferion yn mynd ymlaen yn barod gydag Alwyn Fleming, Noreen Manning, Catherine Owen ac Iwan Williams yn cymryd gofal o'r tri chwmni. Gobeithir cael cefnogaeth frwd o'r ardal ar y noson - Nos Iau, Ebrill 24ain.

DISGO 'JAFFYNC'

Ar y 31ain o Fawrth bydd Disgo yn yr Ysgol, gyda 'Jaffync', y grŵp lleol poblogaidd, yn ymddangos. Cyfle da iddynt ymarfer ar gyfer 'Padarn Roc' eleni.

DIOLCH 'EIRA' CROESO 'KATHY'

Y mis hwn mae Kathy Williams o Ddeiniolen yn cymryd drosodd oddi wrth Eira Wyn Jones y gwaith o'm cynorthwyo gyda'r dudalen ysgolion. Mae Kathy ar ei blwyddyn gyntaf yn y 6ed dosbarth yn astudio Cymraeg, Saesneg a Hanes. Diolch yn fawr iawn i Eira am ei gwaith trylwyr yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Croeso Kathy.

COLLI DARLLENWR FFYDDLON

Yn ystod y mis bu farw Mr Richard Jones, Brynfa, Gaerwen, un o ddarlennwyr ffyddlon a'r Eco. Bu'n gwasanaethu yn Chwarel Dinorwig am gyfnod Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Jones ac â'r teulu oll.

Pant Teg
Waunfawr
Gwynedd

Ffôn: Waunfawr 545

Annwyl Olygydd,
Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin sydd wedi dechrau un ar bymtheg o gylchoedd newydd yn Arfon ac Aberconwy yn chwilio am rai i ofalu am ddwy ysgol feithrin.

Rhaid i'r ymgeiswyr am y swyddi hyn fod ar restr P.E.R. neu ar gofrestr y ganolfan waith ers deuddeg mis os yw dros 25 oed neu ers 6 mis os dan 25 oed. Rhaid iddynt fod heb ennill cyflog ers blwyddyn neu chwe mis yn ôl yr oedran.

Y gwaith fydd helpu mewn cylchoedd meithrin yn y bore a gwneud gwaith paratoi offer yn y prynhawn.

Dewch i'n helpu yn y gwaith.

Os ydych am wybodaeth bellach ffoniwch y rhif isod,

Yn gywir,
Irene Roberts.

DIM DYDDIADUR A DIM CROESAIR

Oherwydd y brofedigaeth a ddaeth i ran Miss Jane Morris ni fydd dyddiadur y mis hwn. Ar ran y bwrdd golygyddol, gweithwyr a darlennwyr yr Eco ein cydymdeimlad dwysaf â Jane a'r teulu. Oherwydd diffyg gofod ni chynhwysir y croesair y mis hwn.

Enillydd Croesair Rhif 36:
Gwyneth Jones, Llythyrdy,
Llanberis.

GŴYL GERDD MENAI 1980

Bydd yr Ŵyl yn cael ei chynnal o Ebrill 27 i Mai 3 ac erbyn hyn mae'r rhaglen yn gyflawn fel a ganlyn:

Bore Sul, Ebrill 27: Gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy.

Nos Sul, Ebrill 27: Cyngerdd gan Gerddorfa Siambr Ieuencid Gogledd Cymru, arweinydd Malcolm Binney, unawdydd Moray Welsh, yn ysgol David Hughes, Porthaethwy.

Nos Fawrth, Ebrill 29: Datganiad ar Organ Capel Mawr, Porthaethwy gan Miss Carys Hughes.

Nos Fercher, Ebrill 30: Cyngerdd ym Mhlas Newydd, Llanfairpwll, gan Bedwarawd Llinynnol Delme.

Nos Wener, Mai 2: Gŵyl Werin gyda Dr Meredydd Evans, yn cyflwyno Cilmeri, Plethyn, Leah Owen, O.H. Roberts a Morfydd Maesaleg.

Nos Sadwrn, Mai 3: Perfformiad o "Judas Maccabeus" gan Gantorian Menai dan arweiniad John Huw Davies, unawdwyr: Soprano - Irene Grant Jones; Alto - Pauline Deitsch; Tenor - Neil Jenkins; Bass - Michael George.

Tocynnau: £1.25. £1.


Bydd y Swyddfa Docynnau yn agor yn Ystafell y Cyngor, Stryd Cil Bedlan, Porthaethwy o ddydd Sadwrn, Mawrth 29, 1980. Ffôn: 713743.

Oriau agor: Llun-Gwener - 11.00-4.00 o'r gloch.

Sadwrn - 10.30-12.30.

Gyda chefnogaeth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru a Chymdeithas Cerddoriaeth Amatur Cymru.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

GWASANAETH NEWYDD YNG NGHAERNARFON



Bathodynau
Crwn ar
gyfer . . .

Clwb Rygbi/Tim Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc, etc

Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:

EURIG WYN

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

CHWARAEON

I EIRA BWLGARIA

YMADAWODD ugain o ddisgyblion Ysgol Brynrefail ag oerni Eryri ar Fawrth 21, gan gyfeirio eu camau tua phorth awyr Luton i hedfan oddi yno i eira Bwlgaria. Na, nid am wyliau, ond ar gwrs sgîo! Beth sydd mor arbennig am eira Bwlgaria, meddech chi, paham yr holl ffordd i Bamporovo i sgîo? Ond tydi'r Wyddfa a'i chriw o dan flanced o'r un stwff? Digon gwir, ond yn anffodus nid yw'r adnoddau nac ychwaith yr hyfforddwyr ar gael yma, ac fe'm sicrhawyd gan Mrs Wroe, athrawes ymarfer corff yr ysgol ei bod bron cyn rhated, ac yn llawn mor hwylus i'w cludo gyda hi i Fwlgaria nag i Ogledd yr Alban.

Bu'r criw yn ymarfer ar lethr sych Plas y Brenin yn wythnosol ers misoedd bellach, rhwng pedwar a chwech o'r gloch ar ôl yr ysgol, ac y mae sgîo yn adloniant sydd bellach yn boblogaidd iawn ymysg y plant. Bu deg disgybl yn llwyddiannus yn ddiweddar, gan ennill tystysgrif Un Seren Cymdeithas Sgîo Prydain, sef Linda Edwards, Nia Green, Tracy Marchant, Melanie Sellers, Yvette Mumford, Keith Parry, Gwyn Morris, Stephen Owen, Carl Phillipson ac Andrew Shaw.

Enillwyd pencampwriaeth Ysgolion Gogledd Cymru gan Frynrefail y llynedd a'r flwyddyn cynt, ac os daw'r un llwyddiant iddynt eleni ym mis Gorffennaf, yna fe lunir copi o'r Cwpan Arnold y cystadleuier amdani a'i chyflwyno i'r ysgol. Cystadleuaeth i dimau yw hon, a deil Chris Lloyd, Timothy Lloyd a Robina McCann i gasglu tlysau mewn cystadleuthau i unigolion o ganolfannau drwy Brydain fel y cofnodwyd eisoes yn yr *Eco*.

GYMNASTEG

Daeth tîm o enethod Ysgol Brynrefail yn ail yng nghystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd, Sir Gwynedd, i rai dan 15 oed, yn y Coleg Normal, Bangor yn ystod y mis.

Ysgol Tryfan oedd eu gwrthwynebwyr a deallaf nad oedd fawr i'w ddewis rhwng y timau. Bu'n rhaid i'r genethod, tîm o 15 ohonynt, ymdrin â'r thema osodedig, sef hedfan mewn deng munud o weithgareddau llawr a thrwy ddefnyddio offer gymnasteg. Gresyn na ddaeth llwyddiant iddynt, gan i'r tîm ymarfer yn galed yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn eu Clwb Gymnasteg, yn ystod yr oriau cinio ac ar ôl yr ysgol.

OES RHYWUN YN ADNABOD Y RHAIN?

DAETH hen lun diddorol i'm gafael drwy law Mr Gwyndaf Jones, Glanffynnon, Llanrug. Nid oes syniad gennyf pwy sy'n berchen arno, ac o'r herwydd bu'n creu penbleth gan nad oes syniad o gwbl gennyf, nac ychwaich gan neb arall yr ymgynghorais â hwy, am gefndir y darlun.

Mae'r tîm (pwy ydyn nhw?) yn amlwg newydd ennill cwpan rhyw gystadleuaeth (beth, pa bryd?) ac yn eithriadol falch o'u llwyddiant. Ai tîm o fro'r *Eco* ydyw o gwbl? Mae'n rhaid cyfaddef fod y tai yn y cefndir yn canu cloch yn rhywle y tu ôl i'm meddwl. Ble maen nhw deudwch?

Buaswn yn wir ddiolchgar pe bai unrhyw ddarlennwr a'u hadnabu yn rhoi'r wybodaeth i mi, un ai'n bersonol neu drwy lythyr i'r *Eco*.

Y mae rhestr o enwau ar gefn y llun, siawns y byddant yn atgoffa rhywun.



Dick Owen, Willie, Arthur, Evas, Morris Hughes, Guto Bach, Dei Owen, Evan, Johnny, Dick, William Wyn, Bob, Wil Sam.

CWPAN J.W. LEES - ROWND 5 LLANRUG 0

Dau dîm yn ymladd am le'n y rownd gyn-derfynol: Llanrug yn ffyddiog ar ôl rhoi cweir i Fangor o Gynghrair y Gogledd yn y rownd flaenorol, a Llanberis hwythau yr un mor ffyddiog o wybod nad oedd unrhyw dîm o Gynghrair Caernarfon wedi eu trechu y tymor hwn. Cafwyd dyfarnwr profiadol i ofalu am y gêm, ac y mae llawer o ddiolch i Mike Love am gadw'r gêm i redeg yn llyfn a di-dor.

Llanberis oedd tîm yr hanner cyntaf, a'u hoff dacteg oedd pêl hir i lawr canol y cae a gadael i Iwan Evans chwipio'r bêl allan i un o'r ddwy asgell gan ddal amddiffynwyr Llanrug ar eu sodlau. Daeth Llanberis yn agos iawn i sgorio'n aml yn ystod yr hanner hwn, ond rhywsut daliodd amddiffynfa Llanrug a daeth tacteg y bêl hir yn llai o arf. Er hynny, ar ddiwedd yr hanner cyntaf gallai Llanberis edrych ymlaen i'r ail hanner yn fwy ffyddiog na Llanrug.

O fewn deng munud o ddechrau'r ail 'roedd ffydd Llanberis wedi ei droi'n ffaith. Yn dilyn cic gornel ar y chwith, cliriwyd y bêl gan amddiffynfa Llanrug, ond fel y symudent allan i ddal blaenwyr Llanberis

yn cam-ochri, daeth Einion Holland i gwrdd â'r bêl a'i chodi'n daclus dros ben pawb, gan gynnwys golgeidwad Llanrug, nes iddi lanio'n ddiogel yng nghefn y rhwyd.

'Roedd y gôl hon fel petai'n sbardun i ddeffro Llanrug, a phan ddaeth John Hammond ar y cae iddynt yn lle Hefin Pritchard, newidiodd patrwm y gêm. Daeth Llanrug fwyfwy i reoli canol y cae a chafwyd symudiadau da iawn ganddynt ar adegau. Yn dilyn un o'r rhain daeth cynnig gorau'r gêm i Dic Owen, ond er iddo saethu'n ddigon da i sgorio heibio'r mwyafrif, daeth llaw Gwilym Williams yn gôl Llanberis ar draws ar yr eiliad olaf a throir'r bêl heibio'r postyn. Dyma'n sicr yr hyn a achubodd y gêm i Lanberis. Er i Lanrug reoli'r gêm am y chwarter awr olaf, 'doedd lwc ddim o'u plaid, a hyd yn oed pan lwyddent i guro'r golgeidwad, 'roedd pen un o amddiffynwyr Llanberis yno i benio'r bêl oddi ar y llinell.

Buddugoliaeth i Lanberis y tro hwn felly, a phob lwc iddynt yn y rownd nesaf. Bydd yn rhaid iddynt guro y Fflint ar gae Conwy ar Fawrth 29.

GEMAU ERAILL Y MIS LLANBERIS

Trechwyd Caernarfon United yn rhwydd yn rownd gyntaf y Cwpan Penrhyn ar Sadwrn cynta'r mis - 4-1 oedd y sgôr - Iwan Evans, Ray Harding (2) a Peter Jones yn sgorio.

Aflwyddiannus fu eu hymdrech yn erbyn y tîm arall o'r dre ar y 15ed. Ail rownd y cwpan Moorings oedd hon, ac ar yr Oval ni fu ymdrechion Iwan a Keith Davies yn ddigon i'w galluogi i ddal eu gafael yn y cwpan a enillwyd ganddynt y llynedd - 3-2 oedd y sgôr.

Daeth y Cofis i Lanberis y Sadwrn diwethaf, - yr United, nid y Reserves, gan ddwyn dau bwynt gwerthfawr oddi ar y tîm lleol. Anafwyd Gareth Williams yn ystod y gêm ac fe'i dygwyd i'r ysbyty i gael triniaeth i'w goes - 2-1 oedd y sgôr a Gwilym Williams yn sgorio.

	ch	e	cyf	colli	OB	YE	Pt
Caernarfon	21	13	6	2	68	22	32
M. Rangers	20	14	2	4	53	26	30
Llanberis	18	11	6	1	64	18	28
Hirael	23	10	7	6	40	40	27
Llanrug	19	11	2	6	48	32	24

YSGOL BRYNREFAIL

Colli fu hanes y tîm hyn yn y ddwy gêm a charaewyd yn ystod y mis ganddynt, sef o un gôl i ddim gartref yn erbyn Llangefni a gartref eto yn erbyn Dyffryn Nantlle o 4 gôl i 1. Gwnaeth Llangefni lawer mwy o niwed i hunan barch y bechgyn dan 15 oed, gan eu trechu o 8 gôl i ddim. Ysgytwyd hyn hwy i guro Dyffryn Nantlle o 3-2, gan wella eto yn erbyn Ysgol Tryfan, Bangor, 4-1, a tharo'r gloch i ffwrdd ym Modedern, 8-0 yr wythnos ddiwethaf.

Bu timau'r gyntaf a'r ail flwyddyn hefyd yn chwarae yn erbyn yr un ysgolion